Llais Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

# Adolygiad o'r Sector Cynghorau a Cymuned a Thref yng Nghymru

## Ymateb i'r Panel Adolygu Annibynnol

## Mawrth 2018

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 2 |
| 2. Un Llais Cymru | 2 |
| 3. Mwy am Gynghorau Cymuned a Thref | 4 |
| 4. Cynghorau cymuned a thref – rôl ehangach | 5 |
| 5. Cyd-destun ymateb Un Llais Cymru | 5 |
| 6. Ymateb Un Llais Cymru i Gwestiynau'r Panel | 13 |
| 7. Am beth ddylai cynghorau cymuned a thref fod yn gyfrifol? | 13 |
| 8. Sut ddylen nhw weithredu? | 20 |
| 9. Beth sy'n eu hatal rhag cyflawni ar gyfer y gymuned leol? | 24 |
| 10. Sut mae cynghorau yn sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol orau? | 35 |
| 11. Sylwadau terfynol | 39 |
| 12. Atodiadau | 40 |
| 13. Atodiad 1 Digwyddiadau ymgynghori a mynychwyr | 40 |
| 14. Atodiad 2 Fframwaith Gallu a Galluedd 2016 -2023 | 44 |
| 15. Atodiad 3 Cylch Gorchwyl Fforwm Llunio Lle Bodmin | 48 |

# UN LLAIS CYMRU

## Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru

## Ymateb i'r Panel Adolygu Annibynnol

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cynnwys ymateb ffurfiol Un Llais Cymru i'r gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad gan y Panel Adolygu Annibynnol. Mae'n adlewyrchu:

a) Barn aelod gynghorau Un Llais Cymru ledled Cymru, fesul cyngor ac wedi'u cofnodi ar y cyd trwy:

- drafodaethau wrth baratoi ar gyfer yr ymateb hwn trwy wyth digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ledled Cymru (dangosir manylion y lleoliadau a'r mynychwyr yn **Atodiad 1**)

- arolwg ar-lein o aelodau Un Llais Cymru (i sicrhau bod pobl oedd wedi methu mynd i'r gweithdai ymgynghori uchod a gynhaliwyd yn cael y cyfle i gynnig sylwadau ac i roi cyfle arall i bobl a fu yn un o'r wyth digwyddiad i gyflwyno ymatebion eraill)

b) Sylwadau arbenigol yn seiliedig ar brofiad aelodau tîm staffio Un Llais Cymru a gafodd y cyfrifoldeb o baratoi'r ymateb;

c) Adolygiad llenyddiaeth o ddogfennau yn ymwneud â'r sector cynghorau cymuned a thref, gan fyfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd, yr heriau sy'n wynebu'r sector wrth symud ymlaen a'r cyfleoedd a gweithredoedd all helpu llywio cyfeiriad cadarnhaol i'r sector i'r dyfodol.

Mae Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol Un Llais Cymru wedi ystyried yr ymateb drafft ac fe gymeradwywyd y papur presennol yn farn gytûn, gyfunol Un Llais Cymru a'i aelod gynghorau.

## 2. Un Llais Cymru

Un Llais Cymru yw'r corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref ledled Cymru. Ar hyn o bryd mae dros 600 o gynghorau yn aelodau, sef tua 82% o'r holl gynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

Gall a mae cynghorau cymuned a thref yn chwarae rôl allweddol yn creu a chynnal ymdeimlad cryf o gymuned. Cred Un Llais Cymru fod cynghorau cymuned a thref, sef haen gyntaf llywodraeth yng Nghymru, mewn sefyllfa dda i sicrhau camau datblygu cymunedol a gefnogir gan sectorau eraill. Mae Un Llais Cymru yn ystyriol hefyd o bwysigrwydd gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer galluogi cymunedau i gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Trwy hyrwyddo datblygiadau lleol, gan weithio gyda phartneriaid yn gweithio yn y gymuned neu'n ei chefnogi, gall y rhyngweithio cynyddol rhwng unigolion yn y gymuned feithrin golwg gadarnhaol ac ymdeimlad o lesiant. Wrth i gymunedau unigol Cymru ddatblygu yn y modd yma, fe wnânt gyfraniad o bwys i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd Cymru. Am y rheswm hwn y weledigaeth yr ymrwymodd Un Llais Cymru iddi yw:

*"Gweithio gyda chynghorau lleol yng Nghymru i liwio'r lleoedd y mae cymunedau eisiau byw ynddynt."*

Mae Un Llais Cymru yn ceisio cefnogi cynghorau cymuned a thref i wireddu'r weledigaeth hon ac mae wedi mabwysiadu'r Datganiad Cenhadaeth canlynol i lywio ei waith:

***"Cynrychioli buddiannau cynghorau cymuned a thref; gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r haen gyntaf hon o lywodraeth, a chydweithio â'n partneriaid i ofalu fod y sector yn cyfrannu'n llawn at y nod o ddatblygu cymunedau deinamig a chynaliadwy yng Nghymru."***

Mae Un Llais Cymru wedi ymrwymo i weithio ar y cyd gyda'i bartner sefydliadau, gan gynnwys aelod gynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Dros y bum mlynedd ddiwethaf mae Un Llais Cymru wedi gweithio fwyfwy gyda nifer o sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol eraill ac sy'n cefnogi ein hamcan o fod yn gorff rhwydweithiol sy'n cynrychioli buddiannau'r sector cynghorau cymuned a thref yng Nghymru.

Barn Un Llais Cymru yw bod angen democratiaeth fwy lleol arnom a mwy o bobl a lleoedd wedi'u grymuso. Mae'r Panel Adolygu Annibynnol o gynghorau cymuned a thref yn rhoi cyfle i wleidyddion o bob plaid i gefnogi ein lefel lywodraethu fwyaf lleol a chynyddol bwysig. Cyfle i arddangos eu hymrwymiad i weithredu dan arweiniad y bobl, sy'n diogelu asedau a gwasanaethau lleol ac sy'n darparu gwasanaethau ymatebol yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol - sydd oll yn gwella bywydau ac yn cyfoethogi cymunedau.

Mae'r ymateb hwn i'r Panel Adolygu Annibynnol yn cyflwyno ein cynnig cadarnhaol i'r Llywodraeth ac yn creu gweledigaeth newydd o sut ellid darparu gwell gwasanaethau gyda phobl leol. Mae'n amlinellu sut allem helpu'r Llywodraeth nesaf i wireddu ei dyheadau ar gyfer grymuso cymunedau, cyd-gynhyrchu a datganoli.

Dylai'r ymateb hwn alluogi'r Panel Adolygu Annibynnol hefyd i wneud argymhellion i'r Llywodraeth ar draws nifer o syniadau polisi allai ddatgloi grym a photensial cymunedau

trwy helpu cynghorau cymuned a thref i ffynnu a cheisio gwella bywydau eu trigolion. Ein gweledigaeth yw gwella ansawdd bywyd i gymunedau lleol trwy gael cynghorau cymuned a thref bywiog, deinamig ac effeithiol.

Mae Un Llais Cymru eisiau gweithio gyda'r Llywodraeth i wireddu'r weledigaeth hon. Cytunwn ag egwyddorion SOLACE[1] (Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol) ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus:

- ✓ *Profwyd mai **ATEBION LLEOL** sydd wedi gweithio fwyaf effeithiol wrth wella deilliannau i gymunedau, gan sicrhau gwell effeithlonrwydd a thorri costau.*

- ✓ *Mae gan **INTEGREIDDIO** y potensial i wella deilliannau, trawsnewid gwasanaethau a sicrhau arbedion ariannol o bwys. Dyma flaenoriaeth hirdymor cynghorau lleol ar draws yr holl feysydd gwasanaeth, a dylai fod hefyd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol.*

- ✓ *Mae'n rhaid ail-ddyfeisio **ATEBOLRWYDD** yng ngoleuni dynesiadau lle cyfan ar draws y sector cyhoeddus, ac mae angen iddo fod yn ddealladwy i'r cyhoedd.*

- ✓ *Mae angen **CONTRACT NEWYDD GYDA CHYMUNEDAU** i adfer ymddiriedaeth ac adeiladu perthynas fwy cynaliadwy, addasadwy rhwng y lleol, y wladwriaeth a'r dinesydd.*

## 3. Mwy am gynghorau cymuned a thref

Mae 735 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru, yn cynrychioli'r haen o lywodraeth sydd agosaf at y bobl. Cwmpasant tua 94% o diriogaeth a 70% o boblogaeth Cymru. Cynghorau cymuned a thref yw rhan fwyaf lleol ein democratiaeth ac fe chwaraeant rôl ganolog ym mywydau cymunedau yng Nghymru. Maent yn rhoi llais democrataidd a strwythur ar gyfer gweithredu i'n cymdogaethau, pentrefi a threfi - grym go iawn i'r bobl ar lawr gwlad.

Mae cynghorau cymuned a thref yn awdurdodau lleol a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac amrywiant o'r rhai sy'n gwasanaethu ein cymunedau gwledig lleiaf i gynghorau trefol mwy a chanddynt boblogaethau o ddegau o filoedd. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan gynghorau lleol yr un mor amrywiol, ond mae pob un ohonynt yn ceisio gwasanaethu ei chymuned ei hun o fewn ei chyd-destun penodol ei hun. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys cynnal gweithgareddau fel cynnal arfarniadau cymunedol, datblygu gwasanaethau newydd neu ychwanegol, cefnogi mudiadau gwirfoddol lleol, darparu cyfleusterau cymunedol a dylanwadu ar benderfyniadau mudiadau a sefydliadau eraill all effeithio'r gymuned.

Mae'r cymunedau a wasanaethant yn amrywio o anheddau gwledig bychain i drefi mwy ac mae eu cyllidebau yn amrywio yn yr un modd. Fodd bynnag, yr hyn sy'n gyffredin i

[1] **OPPORTUNITY KNOCKS :** An alternative manifesto (Graeme McDonald© The Solace Group 2014)

bob un ohonynt yw gwasanaethu eu cymunedau a gweithredu i wella ansawdd bywyd yn eu hardal.  Gwneir hyn trwy ddefnyddio nifer o rymoedd a dyletswyddau statudol – a llawer mwy.
Mae cynghorau cymuned a thref yn atebol i'w hetholwyr lleol am ddarparu ystod eang o wasanaethau ac am ddarparu a gofalu am amwynderau lleol.

Mae pob Cyngor yn cynnwys aelodau etholedig, neu ar adegau aelodau cyfetholedig. Yng Nghymru mae tua 8,000 o gynghorwyr cymuned a thref, sy'n cynrychioli buddiannau'r gymuned a wasanaethant yn gyffredinol. Derbynnir fod ganddynt rôl yn lleisio barn y dinesydd o ran datblygu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

## 4. Cynghorau cymuned a thref – rôl ehangach

Mae Cynghorwyr Cymuned a Thref wedi ymrwymo i'w cymunedau ac maent yn adnodd Cymru gyfan nad yw'n cael ei werthfawrogi'n ddigonol. Trwy eu corff cynrychioliadol, Un Llais Cymru, mae angen meithrin cysylltiadau agosach gydag adrannau Llywodraeth Cymru.

Yn y dyfodol fe fydd Awdurdodau Unedol yn dibynnu fwyfwy ar adnoddau cynghorau cymuned a thref, ac mae angen i'r trefniadau presennol ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng dwy haen llywodraeth leol gael eu cryfhau ymhellach a'u hadlewyrchu mewn trefniadau Siarter ar y cyd sy'n gosod sylfaen gref ar gyfer gweithio'n effeithiol.

Mae angen cefnogi ac adeiladu galluedd a sgiliau grwpiau cymunedol i weithio mewn partneriaeth gyda chynghorau cymuned a thref yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth gyffredinol o rymoedd a chyfrifoldebau yr haen hon o lywodraeth leol. Cafodd hyn ei gydnabod yn barod gan Lywodraeth Cymru ac mae Un Llais Cymru wedi gweithio gyda swyddogion y Llywodraeth i ddatblygu Fframwaith Gallu a Galluedd ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref. (Mae **Atodiad 2** yn cynnwys manylion y rhaglen hon).

Dylai unrhyw agwedd seiliedig ar le gan Lywodraeth Cymru a'i bartneriaid darparu roi ystyriaeth benodol i rôl cynghorau cymuned a thref a'u cysylltu â'r seilwaith lleol a chynlluniau datblygu fel y gallant wella effeithiolrwydd dynesiadau lle a helpu ymyriadau lleol i barhau i gynnig budd.

Mae angen adolygu'r cysylltiadau rhwng haenau lleol a chenedlaethol er mwyn sicrhau y ceir gwell dealltwriaeth o ddynesiadau cenedlaethol a rhanbarthol a'u cynnal yn effeithiol ar y lefel leol a darparu rhyng-gysylltedd gyda threfniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r dyfodol.

## 5. Cyd-destun ymateb Un Llais Cymru

Cyn ymateb i bedwar cwestiwn penodol y Panel, credwn ei bod yn briodol inni rageirio ein sylwadau trwy fyfyrio ar faterion cyfredol sydd yn ein barn ni yn cynnig cyd-destun ar gyfer ein hymatebion.

- Yr hinsawdd ariannol bresennol

Mae adolygiad a gynhaliwyd yn 2017 ar ran Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025 yn amcangyfrif y gallai tua 56c o bob punt a werir gan weinidogion ar wasanaethau cyhoeddus fynd i wasanaethau iechyd a chymdeithasol o fewn pedair blynedd, gan adael llai o arian ar gyfer gweithgareddau a gynhelir gan gynghorau. O'r herwydd, bydd angen i Awdurdodau Unedol edrych yn fanwl ar ffyrdd newydd o weithio ac ar effeithiau cymdeithasol ffyrdd eraill o ymdopi â thoriadau – ac mae'n anorfod y bydd hyn yn effeithio ar sut mae cynghorau cymuned a thref yn gweithredu yn y dyfodol.

Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnig cyfle i gynghorau cymuned a thref egluro sut maen nhw'n gweld eu hunain yn gweithio yn y dyfodol er budd eu cymunedau a chreu hunaniaeth weladwy iddyn nhw'u hunain o fewn y cymunedau a wasanaethant.

Fodd bynnag, mae rhai materion yn ddiamau:

- Mae Cynghorwyr Cymuned a Thref wedi ymrwymo i'w cymunedau ac maent yn adnodd Cymru gyfan a gafodd ei ddibrisio. Y model annibynnol amlycaf o lywodraethiant ddemocrataidd gymunedol yw'r cyngor cymuned neu dref.

- Mae angen i asiantaethau cyhoeddus fod yn fwy ymatebol i anghenion lleol a gall ymgysylltu'n agosach â chynghorau cymuned a thref helpu creu gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o anghenion a gofynion lleol.

- Bydd disgwyl i gynghorau cymuned a thref ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau, ac mae hynny'n awgrymu fod angen gwella perthnasoedd gyda'r Awdurdodau Unedol.

- Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu dyletswyddau ychwanegol a gwahanol i Awdurdodau Unedol a chynghorau cymuned a thref, ac mae'n debyg y bydd hynny'n golygu y bydd rhaid i bolisi a strategaeth fanteisio ar wybodaeth leol a gwaith gwneud polisi yn seiliedig ar dystiolaeth.

- O ran cyflwyno dyletswydd cynaliadwyedd ar gyfer y sector, bydd angen darparu adnoddau er mwyn rhoi cychwyn ar y gweithgareddau strategol allweddol fydd eu hangen i wneud gwaith cynllunio ac ymgysylltu cymunedol cadarn gydag etholwyr lleol.

- Bydd yn cymryd amser i sefydlu proses o ail-gytbwyso grym yn sylfaenol er budd i gynghorau a chymunedau lleol, a bydd angen rhoi amser i agweddau a gallueddau ddal i fyny.

- Mae ganddynt gryn botensial hefyd mewn ardaloedd maestrefol a chanol dinasoedd yn ne ddwyrain Cymru, sef yr ardal y maent leiaf amlwg yng Nghymru gyfan.

- Dylid annog awdurdodau haen gyntaf i gydweithio'n ffurfiol ac anffurfiol er mwyn meithrin diwylliant o gydweithio a lleihau'r risgiau fyddai'n deillio o gynghorau bychain yn cystadlu am adnoddau.

- Cydnabod y toriadau ariannol diweddar yn y Sector Cyhoeddus a'r llymder / cwtogi dilynol yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru a amlygwyd gan:

    - Gydnabyddiaeth gynyddol o'r angen am gydweithio mwy effeithiol ar draws y sectorau o fewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru – e.e. rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynghorau cymuned a thref
    - Toriadau cyson yn lefel ac ansawdd llawer o wasanaethau a ddarperir gan y prif awdurdodau heb roi'r blaen rybudd angenrheidiol i'r cynghorau cymuned a thref i allu cynllunio i gadw'r gwasanaethau sydd dan bwysau yn eu hardaloedd.
    - Disgwyliad cynyddol gan brif awdurdodau y bydd rhai gwasanaethau, gweithgareddau ac asedau yn cael eu trosglwyddo i gynghorau cymuned a thref heb gydnabod nad yw'n dilyn fod gan gynghorau cymuned a thref y gallu na'r galluedd i ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau yn y fan a'r lle. Bydd angen i gynghorau cymuned a thref gael cyfnod o amser i dyfu eu gallu a'u galluedd, gan gynnwys sefydlu mandad etholiadol i ystyried codi mwy o dreth ar bobl leol er mwyn gallu cadw asedau neu wasanaethau.
    - Y cyfle cynyddol i gynghorau cymuned a thref ehangu eu rolau trwy ymateb yn gadarnhaol i drosglwyddiadau posib er mwyn cynnal lefel ac ansawdd gwasanaethau ar y lefel fwyaf lleol, yn amodol ar y pwyntiau a godwyd uchod.
    - Y darlun cymysg ymddangosiadol o ran sefyllfaoedd lle y trosglwyddwyd gwasanaethau ac asedau i grwpiau cymunedol nad oes ganddynt o reidrwydd yr adnoddau na'r arbenigedd angenrheidiol i'w rheoli – mae digon o enghreifftiau o drosglwyddiadau sydd wedi golygu nad yw'r sefydliadau a dderbyniodd asedau neu wasanaethau wedi gallu cynnig am grantiau gan fod cyfnodau les yn rhy fyr i gyrff ariannu allu ystyried darparu grantiau.
    - Y farn nad yw'r cyfyngiadau ariannol ar gynyddu lefelau'r praesept ac ati mor ddifrifol neu gaeth ar gyfer y cynghorau cymuned a thref

- Mae datganiadau Llywodraeth Cymru ac ymglymiad gweithredol y sector yn awgrymu hyder a chred newydd yng nghyfraniad "llawr gwlad" cynghorau cymuned a thref:
    - O ran y rôl bosib y gallent ei chwarae mewn Modelau Darparu Amgen wrth ddarparu gwasanaethau mewn cymunedau fel y gwelwyd yn adroddiad 'Is the Feeling Mutual?' ym mis Mawrth 2016 a gomisiynwyd gan gyn Weinidog Llywodraeth Leol lle y nodwyd fod gan gynghorau cymuned a thref rôl o bwys i'w chwarae yn cynnal gwasanaethau lleol

yn y dyfodol gyda phartner fudiadau megis cymdeithasau tai a'r Trydydd Sector.

- O ran eu cyfraniad sylfaenol i brosesau democrataidd yng nghyswllt eu cyfraniad allweddol a'u rôl ddylanwadu yng nghyd-destun dealltwriaeth drylwyr o'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y lefelau mwyaf lleol, eu manyleb a gosod safonau at ddibenion comisiynu / darparu / cynllunio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau hynny.
- Cyfraniad cynyddol gan Un Llais Cymru ym Myrddau Ymgynghorol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Gweithgor Asedau Cenedlaethol, ac yn enwedig felly'r gwaith ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol a'r Gweithgor Pobl a Chymunedau ar Gynnal Ein Cymunedau.

- Ad-drefnu Llywodraeth Leol

  - Cred aelod gynghorau Un Llais Cymru y gallai'r adolygiad presennol fod yn gyfraniad o bwys tuag at yr ad-drefnu anorfod ar lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus cysylltiedig yng Nghymru.
  - Rhaid i unrhyw adolygiad roi ystyriaeth i'r tair lefel yn y sector cyhoeddus ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill:
    - **Llywodraeth Cymru a'i gweinyddiaeth.** Mae'r posibilrwydd o gynyddu nifer yr Aelodau Cynulliad yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Credwn, wrth adolygu nifer yr ACau, y dylid rhoi ystyriaeth i'r ffaith fod natur rhai gwasanaethau llywodraeth leol yn newid - **er enghraifft**, gallai Rheoli Ysgolion yn Lleol, rhanbartholi gwasanaethau ymgynghori / gwella a chwestiwn safonau yn ei gyfanrwydd awgrymu fod rôl gwasanaethau Addysg o fewn yr Awdurdodau Unedol yn cael ei lleihau ac y gallai gydag amser fynd yn fawr ddim mwy na gwasanaeth "talu a dognau". Efallai ei bod yn bryd erbyn hyn inni ystyried trosglwyddo Addysg oddi wrth awdurdodau lleol a'i wneud yn gyfrifoldeb uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Gallem gynnig dadleuon tebyg ar gyfer gwasanaethau eraill, ond ein pwynt yn syml yw bod rhaid i unrhyw adolygiad o lywodraeth leol fynd i'r afael â'r posibilrwydd o drosglwyddo, ar i fyny, wasanaethau o bwys strategol i Gymru.
    - **Yr Awdurdodau Unedol –** wedi cyhoeddi'r Papur Gwyrdd diweddar ar ad-drefnu Llywodraeth Leol a'r potensial i gael llai o Awdurdodau Unedol yng Nghymru, mae'n bosib y gallai penderfyniadau a gymerir yn ystod y broses hon i leihau neu atal darparu gwasanaethau ar yr ail haen o lywodraeth leol gael cryn effaith ar rolau cynghorau cymuned a thref i'r dyfodol…nid oes unrhyw sicrwydd am y materion hyn ar hyn o bryd, ond o gofio'r effeithiau ariannol diweddar ar wasanaethau anstatudol e.e. dywedodd Cyngor Gwynedd yn ddiweddar y bydd yn rhoi'r gorau i ariannu 40 o gyfleusterau ieuenctid yn eu hardal oherwydd pwysau cyllidebol, mae'n debygol y bydd rhaid i'r sector cynghorau cymuned a thref ystyried cymryd mwy o gyfrifoldeb am weithgarwch o'r math yma yn y dyfodol.
    - **Cynghorau cymuned a thref**

   - **Cyrff cyhoeddus eraill** – Gwasanaethau Iechyd, Cynghorau Iechyd Cymuned ac efallai asiantaethau eraill hefyd.
- Rydym yn pryderu na ddylai unrhyw adolygiadau ad-drefnu, fel y gwnaethant yn 1974 ac 1996 ac yn ystod y diwygiadau mwy diweddar ar y Gwasanaeth Iechyd, ymddangos fel pe baent yn canolbwyntio'n llwyr ar "linellau ar y map" ar draul yr angen i roi sylw i drefnu a darparu gwasanaethau effeithiol. Credwn yn gryf fod rhaid rhoi'r pwyslais ar "Bwy sy'n gwneud beth" o ran yr haenau gwahanol a grwpiau o sefydliadau **cyn** rhoi unrhyw sylw i ardaloedd daearyddol. **Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig iawn fod rolau a chyfrifoldebau cynghorau cymuned a thref yn cael eu pennu yn y lle cyntaf.**
- Derbyniwn fod newid a datblygu yn y sector cyhoeddus yn anorfod a bod angen bod yn ystwyth ac ymateb i amgylchiadau a chyfleoedd newydd. Er gwaethaf hynny, mae'n ymddangos weithiau y bu "dryswch" o ddatblygiadau yn seiliedig ar fentrau - e.e. ardaloedd Cynllun Gofodol / datblygiadau dinas ranbarthau / parthau menter nad ydynt wedi adlewyrchu'r math o feddwl cydlynol sydd ei angen i sicrhau effeithiolrwydd mewn gwasanaethau a sectorau cyhoeddus a rhyngddynt a'i gilydd. Diddorol yw nodi y cafwyd cydnabyddiaeth yn ddiweddar o'r angen i roi rôl fwy penodedig i drefi o fewn ardaloedd dinas ranbarthau a bod angen iddynt gael rheswm dros fodoli a phwrpas newydd wrth i wleidyddion benderfynu sut i wario'r hwb o £1.2bn i economi de Cymru. Cafwyd cydnabyddiaeth fod rhaid i drefi fod yn 'economïau bywiog'. Cred Arweinydd presennol Cyngor Dinas Caerdydd Huw Thomas fod rhaid i unrhyw fargen ranbarthol wneud trefi yn "economi sylfaenol ynddynt eu hunain".
- Er gwaetha'r egwyddorion cadarn oedd yn cynnal yr agenda Gwneud / Creu'r Cysylltiadau, yn ymarferol, ac ar sail ein harsylwi cyfyngedig ni, nid yw wedi gweithio'n llwyddiannus unwaith y cafodd ei raeadru ar lefel cymhwysiad ymarferol h.y. lefel cynghorau cymuned a thref. Yn wir, mae'n ymddangos y cafodd y gwaith pwysig hwn a wnaed yn 2006 ei anghofio i raddau helaeth, ac mae Un Llais Cymru o'r farn y byddai troi'n ôl at y gwaith hwn sy'n rhoi pobl ynghanol meddylfryd gwasanaeth cyhoeddus yn cynnig cyfleoedd i ail-fywiogi'r llinellau cyfathrebu a chydweithio rhwng cynghorau cymuned a thref a'u Hawdurdodau Unedol perthnasol. Cred aelodau Un Llais Cymru y byddai ail-rymuso cynghorau cymuned a thref yn gyrff llywodraethiant lleol yn gweithredu'n gyfochrog ag Awdurdodau Unedol yn llawer gwell na'r sefyllfa bresennol lle y ceir tyndra sylfaenol rhwng dwy weledigaeth groes o'r hyn sydd ei angen ar gymunedau lleol.
- Gobeithiwn fod ein sylwadau ar y posibilrwydd o ad-drefniant ar draws sectorau trwy Gymru gyfan yn cyfleu ein barn fod angen adolygiad trefnus a chynhwysfawr er mwyn gosod sail ar gyfer ad-drefniant o'r fath.

- **Datblygiadau yn y Sector Cynghorau Cymuned a Thref**

  - Yn ein barn ni, cafwyd gydag amser ddatblygiad yn lefel proffesiynoldeb o fewn ein sector, o ran ein swyddogion cyflogedig, proffesiynoldeb aelodau

etholedig a statws a dylanwad y cyrff cenedlaethol sy'n cynrychioli ein sector, yng Nghymru ac ar draws gwledydd Prydain.

- Gallai'r angen i gynnwys cynghorau "mwy" haen gyntaf mewn datblygiadau o'r fath megis deddfwriaeth "Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol" fod yn ein barn ni yr un mor berthnasol i bob cyngor cymuned a thref, ar yr amod fod ganddynt ddigon o adnoddau i'w helpu i symud o'r sefyllfa bresennol a chanllawiau clir ar ddarparu gweithgareddau ar y cyd ar draws ffiniau cynghorau cymuned a thref.
- Hyder a pharodrwydd cynghorau cymuned a thref i gymryd rhan mewn gweithgareddau pwysig fel Cynllunio Lle.
- Mae llymder a chwtogiadau eisoes yn cael effaith drom ar y bobl a wasanaethwn. Wrth i bwyntiau mynediad eraill at wasanaethau cyhoeddus gau neu wynebu toriadau dramatig, rydym fel aelodau Un Llais Cymru yn gweld fod mwy a mwy o bobl leol yn troi at gynghorau cymuned a thref gan ein bod yn gyfrwng mwy hwylus ac effeithiol ar gyfer sicrhau ymatebion / gweithredoedd gan sefydliadau eraill. Mae hyn yn naturiol yn cael effaith ar adnoddau cynghorau cymuned a thref gan eu bod yn gorfod wynebu heriau oedd gynt y tu hwnt i'w cylch gorchwyl, a gwaethygir hyn yn aml gan y diffyg rhybudd rhag blaen gan gyrff cyhoeddus eraill fod gwasanaethau'n mynd i gael eu torri neu'n mynd i ddiflannu'n gyfan gwbl. Mae'n amlwg y byddai **fframwaith ar gyfer trosglwyddo asedau a gwasanaethau** yn elwa pe bai'r bobl berthnasol yn cyfathrebu'n fwy effeithiol ac yn galluogi newid i gael ei reoli'n fwy effeithiol rhwng cyrff cyhoeddus.
- Yn sgîl yr uchod mae cynghorau cymuned a thref yn cael mwy a mwy o geisiadau i ddarparu cyfleoedd / datrysiadau i sefydliadau sy'n gadael i gymunedau lleol gynnal cymorthfeydd allestyn – rhagwelir y bydd y patrwm hwn yn cynyddu pe bai llymder ariannol yn parhau i'r dyfodol.
- Gallai cynigion presennol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) gael effaith gadarnhaol o ran denu ystod ehangach o unigolion i fod yn gynghorydd lleol. Mae'n bwysig nodi mai barn y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yw nad yw **Cynghorwyr Cymuned a Thref yn wirfoddolwyr** gan eu bod fel rhan o'r broses ddemocrataidd wedi derbyn cyfrifoldebau ffurfiol a'u bod oll yn wynebu rhyw fesur o rwymedigaeth o ran swyddogaethau Cyngor y maent yn gyfrifol amdanynt. Dros y tair blynedd diwethaf mae'r IRP wedi cydnabod a derbyn y rôl a'r cyfrifoldebau cynyddol sy'n rhan o fod yn gynghorydd cymuned a thref ac wedi lleihau'r rhwystrau mynediad a allai yn y gorffennol fod wedi digalonni etholwyr lleol rhag cynnig am seddi etholedig.

## Ymchwil diweddar ar y Sector Cynghorau Cymuned a Thref

Yng nghyd-destun diwygio llywodraeth leol, comisiynwyd adolygiad o'r sector cynghorau cymuned a thref yn 2017 gan Lywodraeth Cymru er mwyn deall y cyfrifoldebau a'r heriau y mae'r sector cynghorau cymuned a thref yn eu hwynebu.

Roedd yr ymchwil yn ceisio deall:

- pa wasanaethau ac asedau sy'n cael eu rheoli
- ffynonellau'r arian a'r incwm sydd gan gynghorau i ddarparu eu gwasanaethau a natur eu gweithlu presennol, gan gynnwys y clerc a'i rôl
- maint ac ansawdd yr hyfforddiant a dderbyniwyd ar gyfer darparu gwasanaethau neu reoli asedau
- natur y partneriaethau sydd gan gynghorau gyda sefydliadau eraill
- ffynonellau'r gefnogaeth a ddefnyddiant

Mae'n ddiddorol nodi fod y prif ganfyddiadau o'r arolwg yn adlewyrchu'r farn a fynegwyd yn adborth aelod gynghorau Un Llais Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd trwy gyfrwng gweithdai ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr a'r arolwg ar-lein a gynhaliwyd ym misoedd Ionawr a Chwefror 2018 a'u bod yn awgrymu ffordd ymlaen i'r sector. Nodir canlyniadau ymchwil Llywodraeth Cymru isod:

**Prif ganfyddiadau**

- Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos fod mwy o wasanaethau'n cael eu darparu ac asedau'n cael eu rheoli dros amser.
- Dywed cynghorau bod disgwyliad cynyddol iddynt dderbyn gwasanaethau sy'n galw am wybodaeth fwy arbenigol.
- Roedd cynghorau'n awyddus i gael mwy o drafod dwy ffordd gyda'u prif awdurdod o ran trosglwyddiadau.
- Roedd dros hanner y clercod a holwyd yn gweithio 10 awr yr wythnos neu lai.
- Gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y clercod fu'n derbyn hyfforddiant, ond roedd rhai'n gweld fod ansawdd a gwerth eu hyfforddiant yn gyfyngedig.
- Mae data'n dangos cynnydd yn lefelau gwaith partneriaeth.
- Dywedwyd fod angen am fwy o ganllawiau ar sut i dderbyn gwasanaethau ac asedau.
- Nodwyd cynnydd bychan yn nifer y siartrau a'r cytundebau lefel gwasanaeth.
- Roedd cynghorau'n dangos peth ymwybyddiaeth o'u defnydd o rymoedd statudol.
- Lleisiodd cynghorwyr a chlercod awydd pendant i fod yn rhan o'r broses o weithredu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu cyngor.
- Roedd rhwydweithiau anffurfiol gyda chynghorau eraill yn amlwg ac roeddent yn cael eu croesawu.
- Roedd cynghorau'n parhau'n bryderus am y lefelau isel o ddealltwriaeth ymhlith y cyhoedd am y sector a'u rôl.
- Roedd rhaniad barn ymhlith cynghorau o ran manteision cyfryngau cymdeithasol wrth geisio annog cymunedau i gymryd rhan yng ngwaith cynghorau. Fodd bynnag, fel y gwelir yn Nhabl 1 fe fydd angen i gynghorau cymuned a thref gofleidio cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol.

Tabl 1: **Cyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu**

Yn 2017, roedd gan 90% o aelwydydd gwledydd Prydain gysylltiad rhyngrwyd, cynnydd o 89% yn 2016 a 57% yn 2006. Roedd defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer rhwydweithio cymdeithasol yn cyfrif am 66% o'r holl weithgarwch ar y rhyngrwyd yn 2017 a mwy nac 83% ar gyfer pobl 16-44 oed (ONS, 2017). O ystyried eu hamlygrwydd, mae'r

rhyngrwyd, a chyfryngau cymdeithasol yn enwedig, yn offerynnau grymus a hollbwysig ar gyfer symbylu ymgysylltu gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol a chysylltu gyda phobl ar bob lefel o lywodraethiant.

Yn ôl Arolwg diweddaraf y BDO ar Gyfryngau Cymdeithasol mewn Llywodraeth Leol yn 2015, roedd gan 100% o'r sawl a ymatebodd gyfrif Twitter, roedd gan 90% gyfrif Facebook, roedd gan 68% gyfrif YouTube ac roedd gan 38% gyfrif Instagram. Erbyn hyn, llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yw prif gyfrwng llawer o aelodau'r cyhoedd sydd eisiau cyfathrebu â chyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif. Fodd bynnag, i awdurdodau lleol yn arbennig, mae cyfryngau cymdeithasol nid yn unig yn ddulliau hanfodol o gryfhau ymgysylltu democrataidd ond hefyd o yrru effeithlonrwydd mewn cyfnod o doriadau sylweddol i'w cyllidebau. Yn wir, cyfeiriodd 71% o'r sawl a ymatebodd at fanteision ariannol defnyddio cyfryngau cymdeithasol. (Ffynhonnell: Public Policy Exchange 2018)

Nodir isod yr argymhellion o arolwg Llywodraeth Cymru o gynghorau cymuned a thref:

- Dylid ystyried a allai'r canllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd ar reoli gwasanaethau ac asedau gael eu gwella, a ellid ei gwneud yn rhwyddach cael gafael arnynt a'u teilwra fwy i anghenion y sector.

- Byddai'n fuddiol adolygu'r prosesau ar gyfer cychwyn trosglwyddo asedau a gwasanaethau o brif gynghorau, er mwyn rhoi mwy o ystyriaeth i allueddau cynghorau cymuned a thref.

- Gellid cynnal trafodaethau pellach ar y mathau o hyfforddiant fyddai fwyaf buddiol i gynghorwyr a chlercod, a sut ellid darparu'r hyfforddiant hwnnw yn y modd mwyaf effeithiol.

- Dylai'r sector gyfan ail-ystyried rôl siartrau fel ffordd o gryfhau partneriaethau gyda phrif awdurdodau.

- Dylid cynnal mwy o ymchwil gyda'r sector ar i ba raddau y mae cynghorau yn deall a defnyddio grymoedd penodol.

- Dylid hwyluso cyfleoedd i gynghorau roi ystyriaeth briodol i ddarparu gwasanaethau neu reoli asedau ar y cyd.

- Dylid edrych ar fanteision cydlynu'n ganolog negeseuon pwrpasol i'r sector

**Byddai Un Llais Cymru yn cefnogi gweithredu'r argymhellion uchod ar ffurf rhaglen waith i'r sector** gan eu bod yn mynd i'r afael â llawer o'r problemau a nodwyd yn yr adrannau blaenorol – mae'n amlwg y byddai hyn yn galw am gefnogaeth ac adnoddau priodol ar gyfer gweithredu ac y byddai'n rhaid cael cydweithrediad

partneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Unedol.

## 6. Ymateb Un Llais Cymru i Gwestiynau'r Panel.

Mae'r pedair adran ganlynol yn cynnig atebion i'r pedwar cwestiwn a osodwyd gan y Panel Adolygu Annibynnol. Mae'r atebion yn cynnwys adborth a gasglwyd o wyth digwyddiad ymgynghori a gynhaliwyd ledled Cymru, yn cynnwys: Caernarfon, Y Waun, Hawau ger Llandrindod, San Clêr, Henllys (Cwmbrân), Pencoed, Gorseinon yn ogystal â gyda'n Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a'r Pwyllgor Cynghorau Lleol Mwy. Yn ychwanegol at hyn, trefnwyd arolwg ar-lein ym misoedd Ionawr a Chwefror 2018 er mwyn rhoi'r cyfle i bobl a fethodd fynd i'r digwyddiadau uchod leisio eu barn. Rydym hefyd wedi derbyn ymatebion gan aelod gynghorau unigol, ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu syniadau a'u sylwadau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

### a) AM BETH DDYLAI CYNGHORAU CYMUNED A THREF FOD YN GYFRIFOL?

**O'r adborth a dderbyniodd Un Llais Cymru gan ei aelod gynghorau mae'n gwbl amlwg y dylid cadw'r holl rymoedd a dyletswyddau presennol** – ac nid ydym felly'n bwriadu mynd dros hynny'n fanwl iawn, ond hoffem wneud y pwynt ein bod yn derbyn fel sector fod y defnydd o'r grymoedd a'r dyletswyddau hyn yn amrywio'n fawr ar draws Cymru a **bod angen trefnu'r sector er mwyn cynyddu unffurfiaeth a chysondeb cynnig y sector i etholwyr lleol**. Rhestrwn isod yn Nhabl 2 sylwadau a dderbyniwyd sy'n dangos lefel yr uchelgais ar draws y sector ac sy'n nodi meysydd newydd o gyfrifoldeb i gynghorau cymuned a thref. Fodd bynnag, mae cryn awydd o fewn y sector i wneud mwy ac i gadw gwasanaethau o bwys lleol yn y cymunedau, er na fu hynny efallai'n gyfrifoldeb cynghorau cymuned a thref yn hanesyddol. O'r herwydd, ac os ydym am wneud i hynny ddigwydd, mae dadl gref dros roi grymoedd ychwanegol i'r sector cynghorau cymuned a thref. Nodir isod rai o'r grymoedd newydd hyn:

- Trwy'r Bil Llywodraeth Leol, cyflwyno camau i ddiwygio'r cyfreithiau sy'n berthnasol i weinyddiaeth cynghorau cymuned a thref, fydd yn cynnwys grymoedd newydd i ddarparu gwasanaethau lleol.
- Galluogi cynghorau cymuned a thref i gael y grym i fasnachu fel y gall yr Awdurdodau Unedol er mwyn sicrhau tegwch i bawb a gallu cadw gwasanaethau sydd o bwys yn lleol.
- Newid y ddeddfwriaeth i alluogi cynghorau cymuned a thref i gael y gallu i roi cymorth ariannol ar gyfer atgyweirio adeiladau eglwysig.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Pŵer Llesiant a chael gwared â rhwystrau sy'n eu hatal rhag defnyddio'r 'hawl i arloesi' hwn (e.e. terfyn ar wariant).
- Cryfhau rôl cynghorau cymuned a thref yn y system gynllunio trwy gydlynu polisi i ffocysu ar leoedd a chefnogi cymunedau i liwio'r lle maen nhw'n byw ynddo trwy roi 'Cynlluniau Lle' ar sylfaen statudol.

- Cyflwyno ‘hawl i ymgysylltu’ fydd yn helpu cynghorau cymuned a thref i weithio mewn ffordd decach a mwy effeithiol gydag Awdurdodau Unedol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

**Tabl 2: Meysydd cyfrifoldeb i’r dyfodol i gynghorau cymuned a thref yn seiliedig ar adborth aelod gynghorau Un Llais Cymru**

- Datblygu cynlluniau busnes i gefnogi prosiectau thematig pwrpasol ar gyfer y gymuned / Cynlluniau Lle / Cynllunio Argyfwng Cymunedol
- Dylai pob cyngor fod yn ymwybodol o bartneriaethau posib e.e. gydag elusennau allai ddenu cefnogaeth ariannol
- Cysylltu a chyfathrebu gyda chynghorau cymuned cyfagos
- Pob agwedd o ddatblygu cymunedol a gwasanaethau cymorth cymunedol, gan gynnwys eiriolaeth gymunedol a rheoli cyfleusterau cymunedol.
- Cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol.
- Mentrau ail-gylchu gwastraff gan gynnwys safleoedd ail-gylchu gwastraff lleol.
- Dirprwyo swyddogaethau a gwasanaethau anstatudol a ddarparwyd gan brif awdurdodau: materion iechyd yr amgylchedd yn gysylltiedig â rheoli plâu a chnofilod; gorfodaeth amgylcheddol; rhaglenni bioamrywiaeth lleol; llyfrgelloedd; marchnadoedd; tai bach; cynlluniau trafnidiaeth gymunedol; meysydd parcio; cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau; gwasanaethau glanhau canol trefi; canolfannau gofal ddydd.
- Asedau cymunedol yn cynnwys: mynwentydd cyhoeddus; rheoli tiroedd glas a thiroedd agored eraill; parciau a lleoedd chwarae; meysydd chwarae; llwybrau cerdded; goleuadau cyhoeddus; seddi cyhoeddus; rhandiroedd; cofebion rhyfel.
- Cymorth atodol i fentrau iechyd ac addysgol lleol, gan gynnwys elfen o gefnogaeth i grwpiau crefyddol lleol.
- Datblygu canllawiau cynllunio atodol i gefnogi’r cynllun datblygu lleol…mwy o gyfraniad gan gynghorau cymuned i’r CDLl a’r ASC (Ardoll Seilwaith Cymunedol) yn ogystal â bod yn rhan o gytundebau adran 106.
- Annog Cynghorau Ieuenctid; addysg gymunedol, gan gynnwys datblygu dosbarthiadau a chryfhau cysylltiadau ag ysgolion uwchradd / cefnogi banciau bwyd
- Grantiau cymunedol: darparu grantiau i fudiadau lleol, gan gynnwys annog a datblygu chwaraeon a hamdden ar lawr gwlad.
- Unigedd cymdeithasol: mwy o waith ym maes Gofal Cymdeithasol, megis gwaith Cyngor Cymuned Solfach. Adnabod aelodau’r gymuned sy’n wynebu peryglon a chael fframwaith clir ar gyfer gweithio gydag Awdurdodau Unedol.
- Digwyddiadau dinesig lleol – gorymdeithiau Sul y Cofio; goleuadau Nadolig.
- Cefnogi twristiaeth a threftadaeth leol.
- Gwasanaethau canolfan un alwad a chyfeirio at wasanaethau prif awdurdodau, gan gynnwys cyfleusterau ariannydd ar gyfer derbyn taliadau am dreth cyngor a thaliadau eraill.
- Cwmnïau hyd braich i gynhyrchu incwm.

Mae ein sector cynghorau lleol yng Nghymru mewn sefyllfa dda i lunio ffyrdd newydd o weithio ac o rannu gwelliannau a datblygiadau i sicrhau gwasanaethau lleol cynaliadwy i'r dyfodol. Nid yw cynghorau yng Nghymru yn dechrau o'r dechrau; gallant adeiladu ar lawer o waith da fu'n digwydd dros y bum mlynedd ddiwethaf. Ond mae'r pwysau maen nhw'n eu hwynebu yn real ac yn cynyddu. Gallai cynghorau cymuned lleol ddarparu'r fframwaith cadarnaf o'r gwaelod i fyny ar gyfer llywodraethiant cymunedol gan eu bod yn gweithio o fewn cyfyngiadau democrataidd a statudol.

Mae gan gynghorau cymuned a thref yng Nghymru nifer o gyfrifoldebau sylfaenol i wneud bywydau cymunedau lleol yn fwy cyfforddus. Yn y bôn, mae'r grymoedd hyn yn perthyn i dri phrif gategori:

- cynrychioli pob etholwr o fewn y gymuned neu dref;
- darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion lleol;
- a cheisio gwella ansawdd bywyd yn y gymuned neu dref

Mae Un Llais Cymru yn cytuno â Sefydliad Young sy'n dadlau, er mwyn arloesedd, hyder ac eglurder, y dylid datgan yn bendant fod gan gynghorau cymuned a thref brif bwrpas er enghraifft, "gwella profiad bywyd yn lleol" (h.y. diogelwch cymunedol, yr amgylchedd, gweithgareddau, seilwaith ac ati fel y nodir yn Nhabl 2 uchod).

Dyma rai syniadau ar rolau a chyfrifoldebau posib i gynghorau cymuned a thref sy'n atseinio'r adborth a gawsom gan ein haelod gynghorau i'r cwestiynau yn yr Adolygiad ac sy'n cynnig cyfeiriad cyffredinol ar gyfer pwrpas posib i'r sector i'r dyfodol:

- **Bod yn arweinwyr seiliedig ar asedau** – adnabod, defnyddio a gwneud y defnydd gorau o asedau. Gall cynghorau lleol arwain ar ddatblygu strategaethau asedau ar gyfer eu cymunedau er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau.
- **Sicrhau tegwch i bawb** – mynd i'r afael â heriau tlodi. Wrth i brisiau tanwydd godi gallai cynghorau lleol gydlynu cynlluniau megis consortiymau prynu olew.
- **Grymuso llywodraethiant lleol** – datblygu cynghorau ieuenctid. Trwy annog pobl ifanc a'u cefnogi i gymryd rhan mewn democratiaeth gall cynghorau lleol alluogi syniadau a mentrau newydd i ddiwallu anghenion eu cymunedau.
- **Cynyddu adnoddau er budd y gymuned** - cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnewyddolion cymunedol. Mae ymchwil Un Llais Cymru a Phrifysgol Aberystwyth ar yr agenda hon yn cyfeirio at 'rôl hwylusydd' i gynghorau lleol mewn cymunedau er mwyn cyflwyno mentrau adnewyddolion cymunedol. Gall hyn gynnwys ariannu astudiaethau hyfywedd ar ddewisiadau ynni er mwyn creu ffrydiau incwm lleol ar gyfer eu hail-fuddsoddi.
- **Mwynhau gwasanaethau sy'n berthnasol yn lleol** – gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion lleol gan ddefnyddio dulliau ymgysylltu cymunedol cadarn. Fwy a mwy, bydd angen i gynghorau lleol ddangos i'w cymunedau eu bod yn gwneud defnydd effeithiol o'r praesept – bydd cynlluniau cymunedol neu 'gynlluniau lle' megis y rhai a ddatblygwyd gan Gyngor Cymuned Y Borth yn cryfhau atebolrwydd ac ymgysylltu lleol.

- **Cyfoethogi cyfalaf a llesiant cymdeithasol** – gweithio gyda mentergarwyr cymdeithasol a mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau, er enghraifft, canolfannau ieuenctid galw-heibio.
- **Gwerthfawrogi arwahanrwydd lleol** – mentrau i gefnogi treftadaeth a thwristiaeth leol. Mae Cyngor Tref Cydweli wedi llunio cyfres o daflenni i ddenu ymwelwyr at gofebion hanesyddol lleol.
- **Datblygu seilwaith dibynadwy** – creu 'Canolfannau Un Alwad' megis yr un a ddatblygir gan Bartneriaeth Penllyn gan Gyngor Tref Y Bala a chynghorau cymuned cyfagos.
- **Cryfhau galluedd amgylcheddol** - cofleidio gweithgareddau bioamrywiaeth - mae Cyngor Cymuned Llandochau wedi datblygu ei strategaeth ei hun - megis creu rhandiroedd lleol ar gyfer tyfu cymunedol neu berllannau cymunedol sydd nid yn unig yn cynhyrchu bwyd ond sydd hefyd yn adnodd addysgol ar gyfer ysgolion cynradd.
- **Cefnogi economi leol ddeinamig** – gweithio gyda busnesau lleol i gefnogi mentrau cyflogaeth, gan gynnwys prentisiaethau a chynlluniau mentora.

Mae'r meysydd thematig hyn yn gydnaws â gwaith Ymddiriedolaeth Carnegie, sydd, dros y chwe blynedd diwethaf, wedi nodi meysydd gweithgarwch allweddol ar gyfer gwella cydnerthedd lleol mewn cymunedau, a chyflwynir manylion hynny yn eu cyhoeddiad diweddar 'Supporting Local Places and Local People: Opportunities and Challenges for Welsh Towns' (Rebekah Menzies 2017). O gofio cefnogaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru i raglen Deall Lleoedd yng Nghymru, rydym wedi rhagdybio y bydd y ddogfen uchod wedi cael ei chyflwyno yn dystiolaeth i aelodau'r Panel Adolygu, ond os nad felly byddem yn eu cyfeirio at y cyhoeddiad hwn.

Nodir isod y gyriannau, synergeddau a chyfiawnhad ar gyfer y rolau thematig hyn:

- Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Llywodraeth Cymru yn gorfodi proses o ail-ystyried y ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Yn y dyfodol, ceir mwy o gydweithio a mwy o arloesedd yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu (megis uchod er enghraifft)
- Pwysau Ariannol – mae toriadau yn gorfodi arloesedd. Mae Bond Llesiant Cymru a'r Gronfa Budd Cymunedol yn cynnig cyfle i gyd-gynhyrchu wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Gallai partneriaethau newydd ymddangos rhwng cynghorau cymuned a thref, y sector gwirfoddol ac Awdurdodau Unedol
- Siartrau gydag Awdurdodau Unedol (gan gynnwys "Protocol" Aelodau Cynghorau Lleol / Cynghorwyr Sir yn Sir Gaerfyrddin). Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r rhain wedi arwain at berthynas llawer iachach rhwng y ddwy haen – mwy o barch a phartneriaeth gydlynol.
- Cyfran o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) a gesglir gan brif awdurdodau yng Nghymru, a hyd at 15% yn cael ei ddatganoli i gynghorau lleol. (Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi canllaw i gynghorau ar yr ardoll).

Er nad oedd ‘Cynlluniau Lle’ wedi’u cynnwys yn Neddf Gynllunio (Cymru), mae llawer o ddiddordeb o hyd yn y posibilrwydd o’u datblygu o fewn y sector cynghorau lleol. Ar hyn o bryd, mae Cymorth Cynllunio Cymru yn paratoi pecyn gwaith ar ddarparu Cynlluniau Lle, ac mae Un Llais Cymru yn credu ei bod yn hollbwysig fod cynghorau cymuned a thref yn cael rôl ganolog yn eu darparu er mwyn gallu cydlynu atebolrwydd democrataidd gyda chynllunio a darparu gwasanaethau lleol. Hefyd, wrth ystyried cyfrifoldebau i’r dyfodol, byddem yn lleisio ein pryder am nodi, trwy ddeddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, y bydd adnabod a blaenoriaethu anghenion a safonau gwasanaethau yn symud yn bellach i ffwrdd o lefel cymunedau fel y nodir mewn grwpiau strwythurol ar hyn o bryd ac i’r dyfodol. Mae’n ymddangos fod y wybodaeth gyfredol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn adlewyrchu disgwyliad o drosolwg “macro” o ofynion a blaenoriaethau yn sail ar gyfer cynllunio gwasanaethau. Mae’n amlwg fod angen mynd i’r afael â hyn, yn enwedig os oes llai o Awdurdodau Unedol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, wrth ystyried cyfrifoldebau i’r dyfodol, rhaid sicrhau gwarantau o ran hyfywedd ariannol a chyllidebol a bod digon o adnoddau ar gael, gan gynnwys staff, i allu darparu gwasanaethau a gweithgareddau yn effeithiol. Mae cyfleoedd i ddatblygu mathau newydd o drefniadaeth i gynghorau cymuned a thref megis, er enghraifft, partneriaethau darparu ar y cyd er mwyn gallu gwneud gwell defnydd o adnoddau i’r dyfodol. Mae aelodau Un Llais Cymru o’r farn na fyddai rhesymoli cynghorau trwy eu huno yn gam i’r cyfeiriad iawn, o’i gymharu â chynnal sofraniaeth cynghorau presennol. Canlyniad anfwriadol symud tuag at uno cynghorau fyddai lleihau nifer y cynghorwyr cymuned a thref, a thrwy hynny greu gostyngiad net yn nifer y bobl sy’n darparu adnodd i’r gymdeithas ddinesig yng Nghymru…heb sôn am gynyddu’r diffyg democrataidd wrth i gynghorwyr cymuned a thref gymryd cyfrifoldeb am fwy a mwy o etholwyr, a hynny efallai y tu hwnt i ffiniau cymunedau presennol.

Yr adborth a dderbyniwyd oddi wrth aelod gynghorau yw y bydd rolau a chyfrifoldebau yn amrywio o un ardal cyngor i’r llall, ond bydd hynny’n ganlyniad proses o ddiffinio anghenion yn lleol. Er y gall yr ystod o wasanaethau amrywio, yr hyn sy’n amlwg yw y dylai’r broses o benderfynu, sef ymgysylltu â’r gymuned, fod yn gyson a thryloyw ar draws ardaloedd pob cyngor cymuned a thref. Mewn gwirionedd, bydd yr ystod o wasanaethau ar hyn o bryd yn cael ei harwain gan egni, cymelliannau a blaenoriaethau cynghorau unigol - bydd angen gwneud mwy o waith i benderfynu beth all pobl leol ei ddisgwyl fel isafswm oddi wrth eu cyngor cymuned a thref lleol.

Y realiti presennol yw na fydd unrhyw wasanaethau cymunedol ond yn gallu parhau os yw cynghorau cymuned a thref yn cael eu cefnogi a’u hannog i chwarae rhan fwy gweithredol yn eu cynllunio a’u darparu. O’r herwydd, un maes y bydd angen rhoi ystyriaeth bellach iddo yw swyddogaethau cydamserol rhwng Awdurdodau Unedol a chynghorau cymuned a thref. Cred Un Llais Cymru y gellid dysgu llawer o ddogfen fodel Cyngor Sir Cernyw ‘A Framework for Town and Parish Councils and Community Groups to have an Increased Role in Service Delivery’.

Mae'r fframwaith hwn yn rhoi ystyriaeth i "swyddogaethau cydamserol", sef swyddogaethau y mae gan Gyngor Cernyw a Chynghorau Tref a Phlwyf y grym cyfreithiol i'w darparu. Wrth weithredu'r fframwaith hwn y nodau cytunedig yw:

- parhau i ddatblygu dull seiliedig ar le hirdymor 'holistaidd' (yn hytrach na dull byr dymor seiliedig ar un gwasanaeth yn unig) o ddarparu gwasanaethau lleol;
- galluogi cymunedau i barhau i dderbyn gwasanaethau allai fod mewn perygl fel arall, yn enwedig felly "swyddogaethau cydamserol";
- cynyddu lefelau bodlonrwydd gyda gwasanaethau;
- cynnig mwy o ddylanwad lleol ar wasanaethau;
- lle y bo modd, cynnal a gwella safonau;
- cryfhau rôl cynghorau lleol yn eu cymunedau;
- meithrin mwy o falchder lleol mewn ardaloedd lleol;
- hyrwyddo ymgysylltiad cymunedau lleol mewn llywodraeth leol; a
- sicrhau 'gwerth am arian'.

Mae nifer o ddewisiadau o ran sut all Cynghorau Tref a Phlwyf a grwpiau cymunedol lleol chwarae mwy o ran, a gallai hyn gael ei atgynhyrchu yng Nghymru fel y nodir isod:

***Dewis 1: Dylanwadu a monitro'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lleol***

Gallai Cynghorau Tref a Phlwyf a grwpiau cymunedol lleol fod eisiau dylanwadu, gofyn am newidiadau i gontractau presennol sydd gan Gyngor Cernyw neu gyfrannu at lunio gofynion pan gaiff contractau newydd eu hail-dendro. Gallent chwarae rôl yn monitro'r gwasanaethau a ddarperir yn barod yn eu hardal.

***Dewis 2: Darparu / cryfhau gwasanaethau ar y cyd***

Gallai Cynghorau Tref a Phlwyf a grwpiau cymunedol lleol ddewis cryfhau gwasanaeth a ddarperir gan Gyngor Cernyw ar hyn o bryd trwy ariannu gwaith sydd yn mynd y tu hwnt i'r isafswm sy'n ofynnol. Gallent hefyd ddarparu gwasanaethau ychwanegol na ddarperir mohonynt gan Gyngor Cernyw. Gallai hynny fod trwy gontract ar wahân neu trwy ehangu un sy'n bod yn barod.

***Dewis 3: Cytundebau Asiantaeth, Cytundebau Rheoli, Trwyddedau a Nawdd***

Ar hyn o bryd mae Cyngor Cernyw yn cynnig cytundebau asiantaeth i Gynghorau Tref a Phlwyf ar gyfer 3 gwasanaeth. Mae'r cytundeb yn amlinellu safonau ac amodau sylfaenol (e.e. Iechyd a Diogelwch) ac mae'n cynnwys taliad untro yn seiliedig ar y lefel isaf o wasanaeth y byddai Cyngor Cernyw yn ei dderbyn. Efallai wedyn y bydd y Cyngor Tref a Phlwyf yn dewis datblygu'r gwasanaeth hwn yn lleol.

***Dewis 4: Dirprwyo gwaith darparu gwasanaethau***

Gallai Cynghorau Tref a Phlwyf a grwpiau cymunedol lleol fod yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb llawn am ddarparu gwasanaeth lleol ar ran Cyngor Cernyw.

Mae llawer o'r gwasanaethau hyn yn rhai anstatudol. Fodd bynnag, mae rhai ohonynt yn ddyletswyddau statudol i Gyngor Cernyw.

***Dewis 5: Trosglwyddo gwasanaeth***

Os yw Cyngor Cernyw yn bwriadu lleihau neu roi'r gorau i ddarparu gwasanaeth, fe ymgynghorir â Chynghorau Tref a Phlwyf a grwpiau cymunedol lleol, ac fe roddir y cyfle iddynt ysgwyddo'r cyfrifoldeb o'u darparu eu hunain. Wrth ystyried y dewisiadau sydd ar gael, gallai trosglwyddo unrhyw asedau perthnasol fod yn rhan o'r trafodaethau.

***Dewis 6: Eithriadau***

Nid oes bwriad trosglwyddo rhai gwasanaethau. Rhestrir y rhain yma, a rhoddir manylion byr o'r rhesymau ar gyfer pob un ohonynt, ond yn llawer o'r enghreifftiau a ddefnyddir bydd statud yn atal trosglwyddo'r gwasanaeth. Er gwaethaf hyn efallai y gallai Cynghorau Tref a Phlwyf a grwpiau cymunedol lleol ddylanwadu a monitro'r ffordd y caiff y gwasanaethau hyn eu darparu fel y nodwyd eisoes.

O ran yr uchod, mae aelodau Un Llais Cymru yn credu fod cysyniad “awdurdodau cymwys” yn berthnasol o ran unrhyw broses ffurfiol o ddatganoli swyddogaethau o'r math a ddisgrifiwyd uchod. Gallai fod lle i gynnal proses asesu syml o ran unrhyw swyddogaeth y bwriedid ei datganoli er mwyn rhoi sicrwydd bod gan gynghorau cymuned a thref unigol y gallu a'r galluedd angenrheidiol i gyflawni dyletswyddau o'r fath yn effeithiol.

Gwelsom hefyd fwy o ddiddordeb yn y sector cynghorau cymuned a thref oddi wrth sefydliadau cenedlaethol eraill, ac yn enwedig felly Age Concern, sydd, yn dilyn digwyddiad Bord Gron ar Unigrwydd, yn credu y gallai ein sector:

- Gefnogi pobl hŷn a grwpiau cymunedol i ddatblygu a chyflawni datrysiadau lleol sy'n gwrthweithio unigrwydd.
- Ystyried ffyrdd blaengar o gefnogi grwpiau cymunedol trwy eu hannog i ddefnyddio cyfleusterau'r cyngor.
- Gweithio gyda chymunedau ar draws cenedlaethau i feithrin strwythurau anffurfiol sy'n galluogi pobl i gymryd rhan ym mywyd cymuned ar eu telerau eu hunain.

Mae'r adborth o aelod gynghorau yn gydnaws â'r uchod, fel y gwelir yng ngwaith Cyngor Cymuned Solfach ar ofal cartref – eto'n rôl a chyfrifoldeb y gallai cynghorau cymuned a thref eraill ledled Cymru eu hatgynhyrchu.

Oherwydd y cynllun Gwobrau Cenedlaethol a gyflwynwyd gan Un Llais Cymru, mae'r sector yn fwy abl i ddysgu oddi wrth ei hunan a chodi'r bar gwelliant trwy ddefnyddio'r enghreifftiau a welwyd mewn cynghorau eraill a chyflwyno gwasanaethau newydd. Er

enghraifft, yn 2017 roedd y cynghorau canlynol yn enillwyr a chafwyd astudiaethau enghreifftiol ar y canlynol:

Adroddiad Blynyddol Gorau – Cyngor Cymuned Cwmbrân
Prosiect Amgylcheddol Gorau – Cyngor Cymuned Y Crwys
Gwefan Orau – Higher Kinnerton
Ymgysylltu Cymunedol Gorau – Cyngor Cymuned Y Borth (Cynllunio Argyfwng Cymunedol)
Menter Dwristiaeth Orau - Cyngor Tref Pembre a Phorth Tywyn (Enillwyr Tref yn ei Blodau)
Menter Gynaliadwyedd Orau – Cyngor Tref Cas-gwent (Manach Deg)
Menter Ieuenctid Orau – Cyngor Tref Pontardawe (Cynghorwyr Ieuenctid/Gwefan Go Valley)
Gwasanaeth Lleol Gorau – Cyngor Cymuned Solfach (Gwasanaethau Gofal Cartref)
Prosiect Treftadaeth – Cyngor Tref Llangollen (Adfer y Bont Haearn)

I grynhoi – bydd cael eglurder pwrpas yn galluogi pobl leol i ymgysylltu'n fwy effeithiol ac i gyfrannu at swyddogaethau cynghorau cymuned a thref yng Nghymru…ac mae cael agwedd hyblyg yn gywir yn gyffredinol gan y bydd yr arlwy yn amrywio o le i le. Ond er mwyn iddo lwyddo yn strategaeth ar gyfer grymuso cyfunol ar gyfer cynghorau cymuned a thref ac yn arlwy i bobl, mae angen inni eglurhau natur y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig yn lleol – na fydd cynghorau cymuned a thref efallai'n dod i wybod amdanynt hyd nes y caiff Awdurdodau Unedol eu diwygio a hyd nes y caiff eu rolau a chyfrifoldebau eu nodi a'u cytuno.

## b) SUT DDYLEN NHW WEITHREDU?

Mae Tabl 3 isod yn nodi rhai o'r syniadau sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd yn y sector cynghorau cymuned a thref. Fodd bynnag, yr hyn oedd yn amlwg o'r digwyddiadau ymgynghori a'r adborth o'r arolwg ar-lein oedd nad yw hwn yn gwestiwn hawdd i'w ateb, a bod aelod gynghorau'n dweud yn aml y bydd hyn yn dibynnu ar x neu y. Gan fod mater diwygio Awdurdodau Lleol yn dal heb ei benderfynu, roedd ymatebion cynghorau cymuned a thref yn dibynnu ar yr hyn sy'n hysbys ar hyn o bryd – ac o'r herwydd bydd angen troi'n ôl at y cwestiwn hwn pe bai unrhyw ddatblygiadau gydag Awdurdodau Unedol yn y dyfodol agos.

Hefyd, heb unrhyw bwrpas neu rolau penodedig ar hyn o bryd, mae'n ymddangos fod tueddiad i fynd yn ôl at y status quo wrth ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd.

**Tabl 3: Barn aelod gynghorau Un Llais Cymru ar 'Sut ddylai cynghorau cymuned a thref weithredu'**

- Dylent fodoli a gweithredu ar draws holl gymunedau Cymru / Dylent wasanaethu pob cymuned yng Nghymru
- Templed clir ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir gan Gynghorau Cymuned – rhaid diffinio rôl bendant
- Dylent allu cynnig am grantiau oddi wrth Lywodraeth Cymru / Angen rhyw fath o ariannu uniongyrchol megis treth fusnes
- Cyrff proffesiynol a chanddynt ddatganiad clir o bwrpas wedi'u harwain gan aelodau sy'n cael tâl a'u cynghori gan glercod a chanddynt gymwysterau proffesiynol sy'n berthnasol i'r sector
- Atebol / Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol / Cyhoeddi Cynllun atebolrwydd llywodraethiant tymor canol
- Rhannu adnoddau a gweithlu ar draws cynghorau cymuned a thref a rhwng haenau llywodraeth leol / Meddu ar y grymoedd angenrheidiol i weithio ar draws ffiniau i gefnogi cynghorau cymuned a thref eraill, naill ai mewn partneriaeth neu mewn rôl cleient a chontractwr / Dylai cynghorau cymuned a thref ddarparu gwasanaethau ar y cyd lle y gallai hynny fod yn fuddiol / Cydweithio agosach gyda chynghorau cymuned a thref eraill
- Y grym i fasnachu a chynnal gweithgareddau masnachol ar draws ardaloedd cymunedau
- Ehangu grymoedd er mwyn caniatáu cydweithio gyda chyrff sector cyhoeddus eraill ynghyd â'r trydydd sector, gan gynnwys yr hawl i sefydlu cyrff hyd braich yn cynnwys cwmnïau ac ymddiriedolaethau / Gweithio gyda chyrff/mudiadau gwirfoddol
- Hyrwyddo arbedion maint i gynghorau lleol trwy rannu swyddi allweddol gyda chymunedau eraill e.e. rhannu swyddi Clercod, Swyddogion Ariannol Cyfrifol, Swyddogion Datblygu Cymunedol a Rheolwyr Mynwentydd gyda grwpiau o gynghorau / Grwpiau o gynghorau yn cydweithio mewn ardaloedd penodol e.e. hen ddosbarthiadau gwledig
- Dylai cynghorau cymuned rwydweithio i rannu gwasanaethau ac arbenigedd / Dylai cynghorau gydweithio ond aros yn annibynnol
- Cyngor sy'n cynllunio nid yn ymateb
- Cysoni a safoni gweithdrefnau cynghorau cymuned a thref, Rheolau Sefydlog a Chyfansoddiadau
- Mwy o ddeialog a chydweithio gyda Chynghorau Sir – targedu nodau cyraeddadwy ar gyfer y gymuned / Y gallu i secondio staff allweddol o'r prif awdurdodau i hyrwyddo gallu a galluedd ac i ehangu gwybodaeth, arbenigedd a sgiliau arbenigol llywodraeth leol.
- Dylai Un Llais Cymru gael ei hariannu'n iawn gan Lywodraeth Cymru.
- Dylai hyfforddiant fod yn orfodol ac yn gyfleus fel bod cynghorwyr/clercod yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud
- Staff a chynghorwyr wedi cael hyfforddiant ffurfiol a pherthnasoedd gwaith da rhwng cynghorwyr a staff – parch gan y naill i'r llall. Strwythur staffio strategol a chasgliad o sgiliau priodol i gyflawni'r gwaith
- Grwpiau cymunedol ac aelodau'r cyhoedd yn chwarae mwy o ran yng ngwaith y cyngor
- Cofleidio technoleg er mwyn ymgysylltu ag etholwyr; dylai hynny arwain at y cyhoedd yn cymryd mwy o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth leol
- Cyngor lleol yn gallu dewis ei drywydd ei hun. Bydd y trywydd yn penderfynu'r casgliad o rymoedd fydd ar gael, gyda grymoedd ehangach i gynghorau uchelgeisiol a llai o rymoedd i gynghorau sydd ond eisiau bod yn llais lleol. Gallai'r trywydd benderfynu

hefyd lefel y gofynion archwilio, arolygu a rheoleiddio. Er enghraifft, gallai cynghorau a chanddynt ddyheadau isel iawn fanteisio ar drefniadau archwilio ysgafnach a mwy cyfyngedig

- Mae'n rhaid i gynghorau gael y rhyddid i fabwysiadu systemau sy'n gweithio orau iddyn nhw e.e. contractio allan / cyflogi eu staff eu hunain a dylid eu hannog i weithio gymaint ag y gallant gyda'u cymunedau er mwyn cael mandad ar gyfer gwasanaethau a chyfrifoldebau ychwanegol y penderfynant eu hysgwyddo
- Trefniadau gwneud penderfyniadau ffurfiol atebol a thryloyw trwy gylch rheolaidd o gyfarfodydd cyngor a phwyllgorau ar gyfer cynghorau uchelgeisiol, gan gynnwys llinellau adrodd clir, trefniadau ariannol cadarn a chynaliadwy a chynllun o ddirprwyo i swyddogion.

Mae angen inni fod yn glir am yr argymhellion a gyflwynwn fel sector am sut i gryfhau cynghorau cymuned a thref i'w gwneud yn fwy hyblyg ac addas ar gyfer heriau presennol llywodraethiant cymunedol.

Byddai nifer o ddatblygiadau yn helpu cynghorau cymuned a thref i weithredu'n fwy effeithiol ac effeithlon a chyson ar gyfer eu cymunedau, fel y nodir isod:

- Datblygu Fframwaith ar gyfer Datganoli Asedau a Gwasanaethau rhwng Awdurdodau Unedol (neu wasanaethau cyhoeddus) a chynghorau cymuned a thref fel y gwnaed eisoes yng Nghyngor Sir Cernyw
- Datblygu Model Cynllunio Cymunedol i Gymru a phecyn gwaith i'w gefnogi – sawl enghraifft o sut i wneud cynllunio cymunedol ond dim un dull cyson y gall pawb ei ddefnyddio
- Cyflwyno Grant Arloesedd ar gyfer Cynghorau Lleol – Sefydlu fframwaith o gefnogaeth a chymelliadau i annog mwy o gydweithio ar lywodraethiant cymunedol, cefnogi'r gwaith o reoli newid a datblygu galluoedd a dilysrwydd ar y lefel fwyaf lleol oll
- Grant Sefydlu Cynghorau Newydd – mae Un Llais Cymru yn cael sawl mynegiant o ddiddordeb ond nid oes unrhyw arian i gefnogi hyn ar hyn o bryd
- Amser i Drefi – defnyddio gwaith Ymddiriedolaeth Carnegie ar *Turnaround Towns* i gyflwyno rhaglen o welliannau yn ogystal â defnyddio menter Deall Lleoedd yng Nghymru fydd yn galluogi cynghorau cymuned a thref ynghyd â phartner asiantaethau i ddefnyddio data sy'n berthnasol i ardaloedd o fewn Awdurdodau Unedol / daearyddiaethau lleol. A hithau'n seiliedig ar raglen Deall Lleoedd yn Yr Alban a gyflwynwyd yn 2010, cafodd effaith sylfaenol ar bolisi ar lefel trefi a chymunedau ac arweiniodd at nifer o fanteision i gymunedau a'r sefydliadau sy'n eu cefnogi
- Datblygu rhaglen marchnata Democratiaeth Leol wedi'i hanelu'n benodol at ddenu darpar gynghorwyr cymuned a thref
- Fframwaith ar gyfer Cynghorau Gweithredol – er ein bod yn gweithio tuag at Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol yng Nghymru, nid oes unrhyw reswm pam na

allem gael cynllun hunan werthuso i gynghorau sy'n rhoi gwybod i bobl leol pa lefel o lywodraethiant sydd yn eu hardal…e.e. os ydych yn disgrifio'ch hun yn gyngor efydd fe fydd gennych fath arbennig o lywodraethiant ar waith, mwy ar gyfer arian ac felly ymlaen

- Ail-ystyried cynigion y Comisiwn Etholiadol yn 2004 i ddarparu arian craidd ar gyfer gwasanaethau etholiadol yn genedlaethol yng ngoleuni'r agenda ddemocratiaeth leol newydd
- Gallai llywodraeth ganol ymrwymo i gynnig arian cyfatebol i danysgrifiadau Un Llais Cymru er mwyn gallu darparu mwy o gefnogaeth a chyngor i'r sector

O ran cryfhau democratiaeth leol awgrymir y datblygiadau canlynol i'r Panel:

- Cryfhau'r drefn safonau ar ymddygiad cynghorwyr trwy ganiatáu i gynghorau cymuned a thref gyfeirio enghreifftiau honedig o dorri'r cod at Bwyllgor Safonau sirol sy'n edrych ar enghreifftiau o dorri'r cod ymddygiad
- Cefnogi'r sector i greu strategaeth wella a datblygu, gan greu fframwaith ar gyfer llywodraethiant da, ymgysylltu cymunedol a gwella cynghorau
- Gweithio gyda'r sector i annog mwy o bobl i ddod yn gynghorwyr, ei gwneud yn haws i bobl sefyll a gwasanaethu, hyrwyddo etholiadau cystadleuol a sefydlu cronfa ddemocratiaeth genedlaethol
- Cyflwyno dyletswydd i sicrhau bod gan gynghorau cymuned a thref ran ym mhrosesau craffu byrddau gwasanaethau cyhoeddus
- Cefnogi datblygu modelau craffu sy'n golygu fod cynghorau cymuned a thref yn chwarae rhan yn monitro cyrff cyhoeddus eraill a'r gwasanaethau a gomisiynir ganddynt
- Cyfathrebu strwythuredig rhwng cymdogaethau a'r Cyngor Sir i ddangos beth sy'n gweithio'n dda er mwyn osgoi dyblygu ymdrechion. Dylid osgoi dyblygu adnoddau ar lefel Cymuned/Tref a'r Cyngor Sir
- Rhwydweithiau ffurfiol i glercod er mwyn rhannu arfer gorau a llywodraethiant da
- Hyfforddiant a rhaglen gynefino strwythuredig i Gynghorwyr newydd sy'n gosod safonau a chyfryngau cyfathrebu
- Gellid cael manteision arbedion maint ar gyfer pryniannau, er enghraifft, pan mae mwy nac un cyngor cymuned mewn ardal benodol. Gallai hyn fod o gymorth penodol ar gyfer offer lleoedd chwarae, er enghraifft
- Gallai cronni adnoddau ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol ac yswirio greu arbedion hefyd
- Ar gyfer rhai cynghorau llai, efallai mai'r clerc fydd y prif wariant blynyddol. Efallai y gellid rhoi ystyriaeth i rôl y clerc ac a ddylai wasanaethu mwy nac un cyngor. Neu a ddylid cael trefniant both a sbocsen ar gyfer cronni arbenigedd e.e. ar gyfer ceisiadau grant a rhannu arfer gorau
- Dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i rôl cynghorau cymuned a thref yng nghyswllt rhaglenni adfywio trefi – roedd y diffyg cyfeiriadau at y sector yn amlwg yn y Strategaeth Lleoedd Bywiog ac mae'r adborth gan aelod

gynghorau Un Llais Cymru yn awgrymu y cawsant eu hanwybyddu i raddau helaeth iawn yn yr agenda hon. Yn wyneb llymder ariannol prin y gall hyn barhau

- Wrth i Lywodraeth Cymru roi terfyn ar raglen Cymunedau'n Gyntaf mae cyfleoedd i gynghorau cymuned a thref chwarae rhan fwy gweithredol a chefnogi'r agenda atal-tlodi gan mai nhw yw'r gwasanaeth cyhoeddus sydd agosaf at y sawl a effeithir. Efallai y bydd grymoedd newydd i fynd i'r afael â'r agenda hon helpu cynghorau cymuned a thref i gymryd camau atal-tlodi ystyrlon
- Fel y dangoswyd yn ddiweddar gan Gyngor Sir Penfro, gallai cynghorau cymuned a thref dderbyn treth ail gartrefi i gynorthwyo gyda datblygiadau cymunedol – gallent dderbyn hyd at 75% o'r refeniw hwn i'w gyfrannu at achosion lleol
- Yn olaf, gallai fod rôl weithredol i gynghorau cymuned a thref o ran arwain fforymau datblygu economaidd lleol fel y gwelwyd mewn datblygiadau diweddar yng Nghernyw lle y mae cynghorau (cynghorau tref hyd yn hyn) yn aelodau o Fforwm Lliwio Lleoedd lleol – mae **Atodiad 3** yn nodi'r Cylch Gorchwyl. Mae hyn yn cynnig cyfle i'r corff cyhoeddus lleol gysylltu atebolrwydd democrataidd gyda darpariaeth leol mewn gofod sy'n galluogi partner fudiadau i gyfrannu at wasanaethau lleol cynaliadwy.

## c) BETH SY'N EU HATAL RHAG CYFLAWNI AR GYFER Y GYMUNED LEOL?

Mae adborth oddi wrth aelod gynghorau yn awgrymu eu bod yn gorfod wynebu nifer o heriau a rhwystrau wrth geisio cyflawni ar gyfer cymunedau lleol**.** Yn benodol, mae angen ffocysu ar:

- Gydweithio'n fwy effeithiol ac ar draws ffiniau
- Datblygu cynghorau lleol sy'n ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion a gofynion lleol
- Datblygu cynghorau lleol sy'n gofalu fod pobl leol yn bartner cyfartal yn penderfynu pa wasanaethau a chymorth sydd eu hangen arnynt ac a dderbyniant
- Datblygu clercod a chynghorwyr i sicrhau bod ganddynt y sgiliau iawn i wynebu'r heriau uchod.
- Gwell dealltwriaeth o flaenoriaethau ar gyfer eu hardal leol / nid yw materion sylfaenol yn cael eu deall yn iawn
- Mae angen i gynghorau lleol gydnabod fod angen codi praeseptau er mwyn derbyn gwasanaethau ychwanegol oddi wrth rannau eraill o'r teulu gwasanaethau cyhoeddus neu hyd yn oed y sector preifat yn lleol a phenodi staff newydd a neilltuo adnoddau priodol
- Mae swyddogaethau cydamserol a threthu dwbl yn bwnc trafod, ac yn enwedig felly os nad yw'r fformiwla bridiannu ar gyfer y Grant Cymorth Refeniw yn newid.

- Mae cyflymdra a maint y newid yn peri gofid – bydd rheoli newid a'r prosesau cysylltiol yn anodd, yn enwedig gan na chafodd ei wneud erioed o'r blaen gan y sector…bydd rhai'n ofni newid ac eraill yn ei anwybyddu neu'n ei wrthwynebu.
- Mae nifer o bobl yn disgwyl y bydd y sector cynghorau cymuned a thref yn gallu datrys nifer o faterion lleol e.e. mae partner fudiadau Grŵp Cydnerthedd Cymunedol Llywodraeth Cymru yn gweld cynghorau cymuned a thref yn chwarae rôl hollbwysig yn nyfodol cydnerthedd cymunedol, ond nid yw cynghorau cymuned a thref hyd yn oed yn un o'r ymgynghoreion statudol i'r agenda hon. Hefyd, nid oes gan gynghorau cymuned a thref unrhyw gynrychiolaeth ar y Fforymau Cydnerthedd Cymunedol, sy'n golygu fod angen braenaru'r tir cyn y gall ein sector chwarae rhan weithredol
- Angen datrysiadau o'r gwaelod i fyny – mae'n broblem i gynghorau cymuned a thref ar hyn o bryd i gael y materion sydd o bwys iddynt ar agenda Awdurdodau Unedol neu agenda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Mae'r cysylltedd rhwng Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynghorau cymuned a thref yn anghyson – gallai siartrau fod yn ateb posib, ond bydd angen cefnogaeth o'r newydd gan Awdurdodau Unedol.
- Mae ofnau am golli galluedd yn bryder gwirioneddol i Awdurdodau Unedol fel y dywedwyd mewn adroddiad diweddar gan y Sefydliad Astudiaethau Ariannol ym mis Medi 2017 – gallai hyn arafu trafodaethau ar reoli trosglwyddo gwasanaethau ar draws Cymru
- Ac ar thema gyffelyb, mae'n ffaith nad yw cynghorau cymuned a thref yn barod ar gyfer datganoli asedau a gwasanaethau, er y cydnabyddir fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon
- Ar hyn o bryd nid oes gan y sector unrhyw gynrychiolaeth ar y Cyngor Partneriaeth Gweithlu a byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r sefyllfa er mwyn sicrhau yn y cyfnodau hyn o gryn newid fod llais y sector cynghorau lleol yn cael ei glywed wrth lunio gwasanaethau ar gyfer ein cymunedau i'r dyfodol.

**Tabl 4: Trosolwg o faterion a godwyd gan aelod gynghorau Un Llais Cymru o ran ffactorau sy'n eu hatal rhag cyflawni**

- Y cyfyngiad allweddol yw'r pryder y bydd etholwyr yn cwyno am drethiant dwbl os yw gwasanaethau ac asedau'n cael eu trosglwyddo o Awdurdodau Unedol.
- Cynghorwyr sy'n gweld eu hunain yn 'wirfoddolwyr di-dâl' ac nid yn gynrychiolwyr etholedig
- Mae angen eglurhad statudol am beth mae disgwyl i'r sector ei gyflawni a pha rymoedd all eu defnyddio. Ar hyn o bryd mae'r rhan fwyaf o gyfrifoldebau'r awdurdodau hyn yn rhai gwirfoddol yn y bôn, ac nid yw honno'n ffordd gynaliadwy a chyfoes o weithio. Mae diffyg fframwaith cyfreithiol yn ei gwneud

yn anodd iawn i gynghorau lleol llai wneud cymaint o argraff a bod mor effeithiol ag y gallent, yn enwedig felly yn yr ardaloedd hynny lle y mae perthnasoedd gydag awdurdodau eraill yn fwy heriol

- Diffyg eglurder rhwng cyfrifoldebau cynghorau cymuned a chynghorau sir
- Mae gan feintiau amrywiol cynghorau lleol oblygiadau o ran ystod eu gweithgareddau, uchelgais a gallu a galluedd cyffredinol y sector.
- Ofni mentro, ofni codi'r praesept, ddim eisiau mwy o gyfrifoldebau.
- Perthnasoedd gyda phrif awdurdodau, cynghorau lleol cyfagos a budd-ddeiliaid eraill.
- Y cyfyngiadau cyfreithiol ac ariannol sydd ynghlwm wrth yr ystod bresennol o rymoedd.
- Y fframwaith ariannol presennol – yn gyffredinol mae eu galluedd ariannol yn gyfyngedig; dim hawl i gynnig am grantiau llywodraeth; materion trethiant dwbl ynghlwm wrth ddatganoli gwasanaethau o brif awdurdodau (gan gynnwys trosglwyddo asedau); dim mynediad at drethi busnes lleol a'r holl wariant yn gorfod cael ei ariannu trwy drethi cyngor lleol. Mae aelodau yn tueddu bod yn ddarbodus oherwydd y cyfyngiadau hyn.
- Nid oes gan bob cymuned yng Nghymru gyngor lleol yn gweithredu'n llais lleol.
- Diffyg amrywiaeth o ran aelodaeth cynghorau: mae hyn yn cysylltu hefyd â'r methiant i ddenu aelodau newydd. Mae'r amser a'r gost i'r unigolyn i gymryd rhan yng ngwaith cyngor yn gallu bod yn rhwystr i bobl sy'n gweithio'n llawn amser neu bobl a chanddynt gyfrifoldebau teuluol.
- Awydd a phenderfyniad rhai cynghorwyr cymuned a thref, a'r ffaith fod cynghorau'n ddigon mawr i weithredu'n effeithlon
- Diffyg pwrpas, cynllunio strategol ac uchelgais.
- Mae cynghorau cymuned yn cael eu gweld yn aml yn amherthnasol yn y broses ddemocrataidd. Dylid annog cynghorau i fod yn gynrychiolydd eu cymuned, a dylent gael eu defnyddio felly gan Gynghorau Sir a Llywodraeth Cymru. Mae'n ymddangos fod rhwystr rhwng sectorau oherwydd y diffyg dealltwriaeth o beth yn union mae cynghorau cymuned yn ei wneud / Diffyg ymddiriedaeth gan y llywodraeth i adael i gynghorau dyfu ac esblygu.
- Cyfyngiadau a rheolyddion a osodir gan Gynghorau Sir a Llywodraeth. Rhagdybir fod Cynghorwyr Sir yn amddiffynnol o'u cyfrifoldebau a'u bod yn amharod gollwng gafael arnynt. Penderfyniadau gwael ac aneffeithiol gan y Cyngor, efallai oherwydd biwrocratiaeth a diffyg dyfalbarhad. Cyllid, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ar gyfer meysydd cyfrifoldeb newydd yn cael ei ddadlwytho gan y Cyngor Sir i Gynghorau Cymuned. Llai o bwyslais ar grwpiau lleiafrifol. Mae'n amlwg o safbwynt cynllunio nad yw Cyngor Sir Powys yn rhoi fawr ddim sylw i argymhellion cynghorau cymuned - ni yw'r llais lleol ond yn rhy aml caiff ei ddiystyru. Rwyf yn siŵr y byddai cynghorau cymuned a thref yn chwarae mwy o ran pe bai eu barn yn cael mwy o sylw. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ein gweld yn siop siarad heb unrhyw awdurdod gwirioneddol A oes angen inni fod yn fwy a chael cyllideb fwy neu a yw hynny'n golygu colli'r elfen leol - mae angen trafod hyn. Yn aml mae diffyg proffesiynoldeb mewn cynghorau cymuned - pobl yn llawn bwriadau da ond yn brin o'r sgiliau neu hyfforddiant sydd eu hangen.
- Yn aml mae cynghorau cymuned yn cael eu hanwybyddu gan nad ydynt yn

bwysig. Dylid grymuso cynghorau, a dylent gael eu gweld yn gynrychiolydd eu cymuned gan Gynghorau Sir a Llywodraeth Cymru. Mae diffyg dealltwriaeth o'r sector hefyd yn rhwystr; dylid addysgu pobl ifanc mewn ysgolion am sut mae eu cynghorau lleol yn gweithredu a pha wasanaethau maen nhw'n eu darparu yn eu cymunedau.

- Nid yw'r diwylliant presennol yn croesawu newid ac mae diffyg arweinyddiaeth gref.
- Diffyg cysylltiad â defnyddio technoleg fodern, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.
- Mae oriau rhan amser clercod a'u hamodau cyflogaeth yn gallu bod yn rhwystr – o ran trefniadau gweithio cyffredinol a'u hargaeledd i wasanaethu'r cyhoedd. Gellid ychwanegu hefyd ddiffyg trefn bersonél ar draws y sector yn gyffredinol.
- Dryswch cyhoeddus am hyd a lled grymoedd a chyfrifoldebau cynghorau lleol a ddim yn gwybod am system dwy haen llywodraeth leol a phwy sy'n gwneud beth.
- Anallu cynghorau lleol i ddelio â'r rhan fwyaf o broblemau lleol y mae'r cyhoedd yn rhoi gwybod iddynt amdanynt.
- Ar hyn o bryd mae cynghorau cymuned a thref yn aml yn rhy fach i allu creu newid o bwys er gwell ar unrhyw raddfa ystyrlon. Mae cynghorau cymuned a thref yn aml yn cael eu gweld yn gyrff sydd ond yn gwneud mân bethau ar gyfer eu cymunedau, ac i lawer o bobl, nid yw cynghorau cymuned a thref yn cael eu gweld o gwbl. Mae difaterwch y cyhoedd (neu ddiffyg gwybodaeth) yn golygu fod gan lai a llai o bobl ddiddordeb mewn etholiadau a llai a llai o bobl yn awyddus i gynnig eu henwau mewn etholiadau i wneud beth sydd orau i'w cymunedau. Mae gorfod ymladd etholiad yn rhwystr mawr ynddo'i hun i lawer o bobl, sy'n teimlo'n angerddol am wella eu cymunedau lleol ac a fyddai (ac sydd yn barod yn aml iawn) yn arweinwyr newid a chyflawnwyr ar lawr gwlad rhagorol iawn, ond sydd yn amharod bod yn rhan o broses etholiad, yr elfen wleidyddol a'r beirniadu sy'n rhan ohoni. Nid oes gan ein cyngor cymuned a thref ond dau aelod o staff, y ddau'n rhan amser. Mae'r amser sydd ar gael iddynt i wneud unrhyw beth ond hanfodion rhedeg sefydliad yn effeithiol, gweithredu penderfyniadau'r cyngor, cynghori'r cyngor, delio â chyfarfodydd a chydymffurfio â gofynion archwilio'r cyngor yn fach iawn. Efallai mai'r diffyg adnoddau yma, y diffyg grymoedd cyffredinol i wella ansawdd bywyd yn lleol, diffyg diddordeb y cyhoedd a'r broses etholiadol yw'r rhwystrau mwyaf sy'n atal cynghorau cymuned a thref rhag cyflawni mwy i'w cymunedau.
- Bygythiad o gael eu diddymu

* Gwanhau posib ar strwythurau democrataidd presennol ar lefel cynghorau lleol – argymhellodd ymgynghoriad ar Ddiwygiadau Addysg y llynedd y dylid cael gwared â hawl cynghorau cymuned i gael llywodraethwr cymunedol mewn ysgolion cynradd. Byddai aelodau Un Llais Cymru yn dadlau fod angen i hwn gael ei gryfhau yn hytrach na thorri clymau.
* Mae diffyg galluedd yma a thraw ar draws Cymru: nid yw rhai cynghorwyr yn deall eu rôl yn iawn ac nid oes ganddynt yr hyder i wneud unrhyw beth ymarferol.

- Ni ellir gweithredu'n lleol ar ein pen ein hunain – mae'n rhaid iddo integreiddio yn y gwaith sy'n digwydd yn barod i gydlynu cynaliadwyedd a datblygu economaidd cynaliadwy ar raddfa ranbarthol. Yr un yw'r her – integreiddio'r lleol gyda'r rhanbarthol a'r cenedlaethol. Bu cysoni gwaith cynghorau lleol gyda'r Cynlluniau Llesiant Lleol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn heriol hyd yn hyn ond nid yn anoresgynadwy i'r dyfodol os cawn well llinellau cyfathrebu rhwng y sector a chyrff cyhoeddus eraill.
- Nid yw cynghorau cymuned a thref yn cael eu cynrychioli'n llawn ledled Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus nac ar strwythurau Cynlluniau Datblygu Lleol – maen nhw'n ymgynghoreion statudol ar gyfer y cynlluniau hyn, ond yn aml teimlant eu bod yn cael eu diystyru. Fodd bynnag, mewn rhai achosion nid ydynt yn helpu eu hunain ac nid ydynt yn cyflwyno sylwadau cryfion pan gânt y cyfle. Nid yw cynlluniau pentrefi lleol neu 'Gynlluniau Lle' yn rhan o broses y CDLl, er bod eu defnydd posib yn cael ei gefnogi gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Nid oes unrhyw rymoedd ffurfiol, deddfwriaethol ar gyfer cynlluniau lleol/pentref, ond gellid dadlau y dylid eu mabwysiadu yn ddogfennau canllaw polisi cynllunio atodol.
- Ychydig iawn o gydnabyddiaeth ariannol mae cynghorwyr lleol yn ei chael, ac o'r herwydd cyfyngedig yw eu gallu i ymgysylltu â materion strategol pwysig. Mae clercod yn aml yn brin o adnoddau ac maent yn gweithio mwy o oriau nac y cânt eu talu amdanynt.

Hefyd, nododd Adolygiad o Drefniadau Ariannu Cynghorau Cymuned a Thref yn yr hydref 2015 fod consensws fod natur y sector - nifer fawr o gynghorau bach iawn - yn golygu nad yw cyfathrebu â'r sector a sicrhau newid ynddo yn fater syml. Roedd nodweddion y sector a amlygwyd yn ystod trafodaethau yn cynnwys:

- Nid oes cynghorau lleol ymhob rhan o Gymru;
- Nifer fawr o gynghorau bach;
- Mae cynghorwyr yn ystyried eu hunain yn wirfoddolwyr, ac mae'r ffaith eu bod yn ddi-dâl yn golygu fod rhaid cadw eu hewyllys da;
- Mae denu cynghorwyr yn gallu bod yn anodd mewn sawl ardal, a chaiff llawer eu cyfethol ar ôl i'r etholiadau gael eu cynnal.
- Mae llawer o gynghorau'n dibynnu ar Glerc rhan amser, ac mae ganddynt gyfleusterau TGCh ac eraill cyfyngedig.
- Gallai newidiadau arwyddocaol yn rôl cynghorau, a'r gofynion a wneir ohonynt, arwain at lefelau trosiant uchel ymhlith clercod a chynghorwyr. Bu Un Llais Cymru yn rhoi cefnogaeth gynyddol i gynghorau cymuned a thref ar faterion cyflogaeth a phenodi clercod.
- Mae cynghorwyr yn ystyried y cysylltiad â'u cymuned leol yn gwbl allweddol ac yn credu y bydd creu cynghorau mwy yn gwasanaethu ardal ddaearyddol ehangach yn torri'r cysylltiad hwnnw ac yn ei gwneud yn anoddach denu cynghorwyr. Bydd angen delio'n ofalus â'r potensial ar gyfer 'clystyru' cynghorau neu ddatblygu cyrff darparu ar y cyd posib.
- Roedd cynghorau'n bryderus iawn am godiadau i'w praesept, ac roedd defnyddio eu cyllidebau mewn ffordd ofalus yn ffactor yn eu hagwedd at daliadau aelodaeth Un Llais Cymru.

- Toriadau i wasanaethau a dirprwyo gwasanaethau awdurdodau lleol oedd y mater pwysicaf i gynghorau ar hyn o bryd ac arweiniodd at drafod brwd, yn enwedig felly ar rôl awdurdodau lleol yn galluogi cynghorau i gymryd penderfyniadau cadarn ar ymarferoldeb trosglwyddo gwasanaethau.
- Ar gyfer cynghorau mwy, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cyflwyno heriau newydd o ran sut maen nhw'n ymgysylltu â'u hetholwyr a chydweithio gyda chynlluniau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae cynghorau cymuned a thref yn awyddus i chwarae rôl weithredol i gefnogi'r agenda 'diwygio llywodraeth leol' ac mae aelod gynghorau Un Llais Cymru wedi adnabod nifer o fylchau arwyddocaol o ran galluedd a gwybodaeth o fewn y sector. Y prif fylchau a nodwyd yw'r canlynol:

**Cynaliadwyedd** - yng ngoleuni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen annog pob cyngor i gyfrannu at agenda strategol ehangach cynaliadwyedd, waeth a ydynt yn dod o fewn gofynion y Ddeddf ai peidio.

**Llywodraethiant ac Atebolrwydd Ariannol** – Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru eto yn 2017 bryderon am fethiannau yn systemau llywodraethiant ac atebolrwydd mewn nifer fawr o gynghorau ledled Cymru. Cafodd y drefn archwilio ar gyfer cynghorau ei chryfhau ers mis Ebrill 2015 a danfonwyd canllawiau diwygiedig ar gyllidebu ac archwiliadau mewnol at bob cyngor. Mae'n bwysig fod cynghorau'n dod yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau. Mae'n amlwg, er hynny, fod angen i Un Llais Cymru gael modiwl hyfforddiant ychwanegol sy'n manylu ar yr hyn a ddisgwylir gan gynghorau. Bydd Un Llais Cymru yn pwyso ar gynghorau i fanteisio ar hyfforddiant ychwanegol ar lywodraethiant ariannol a drafodir yn y modiwl hyfforddiant Cyllid Uwch.

**Gweithio gyda'r Trydydd Sector** – Mae gan lawer o gynghorau hanes hir o weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector ond nid yw hyn yn digwydd yn gyffredinol ledled Cymru. Bydd y duedd gynyddol i ddatganoli gwasanaethau a throsglwyddo asedau cymunedol yn golygu y bydd rhaid i gynghorau lleol a'r trydydd sector ddod at ei gilydd i greu partneriaethau effeithiol i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o gyfryngau cymdeithasol er lles pobl Cymru. Mae mawr angen hyfforddiant yn y maes hwn, ac efallai y dylid cynnig modiwl o'r fath i gynghorwyr a chynrychiolwyr trydydd sector. Byddwn yn ceisio adeiladu ar hyn yn dilyn cyfarfod diweddar Cyngor Partneriaeth Cymru (Chwefror 2018) lle y cytunwyd pwynt gweithredu y dylai Un Llais Cymru a WCVA ystyried sut allent gydweithio'n fwy effeithiol yn y dyfodol.

**Rheoli a Chefnogi Digwyddiadau Lleol** – Elfen fawr o waith y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru yw trefnu digwyddiadau lleol megis ffeiriau, gwyliau haf, carnifalau a nifer fawr o ddigwyddiadau Nadolig. Mae'n hollbwysig fod digwyddiadau o'r fath yn cael eu rheoli'n dda a'u bod yn cydymffurfio â gofynion statudol megis iechyd a diogelwch ac

ati. Mae sicrhau bod cynghorau lleol yn cydymffurfio yn dod yn fwy o fater wrth i gynghorau wneud mwy o waith – yn enwedig felly pan na chafodd y gwasanaeth ei ddarparu gan y sector yn y gorffennol.

**Penodi Cynrychiolwyr Ieuenctid a ffurfio Cynghorau Ieuenctid** - Mae pwysigrwydd creu mwy o amrywiaeth ymhlith aelodaeth cynghorau yn sylfaenol er mwyn rhoi ystyriaeth i anghenion pob sector yn y gymuned. Hyd yn hyn, cyfyngedig yn unig yw'r dystiolaeth o ddatblygiadau yn penodi cynrychiolwyr ieuenctid a ffurfio cynghorau ieuenctid, ac mae'n bosib iawn mai'r rheswm am hynny yw'r diffyg canllawiau a gwybodaeth oedd ar gael i gynghorwyr yn y gorffennol. Yn ystod 2016 lluniodd Un Llais Cymru, gyda chefnogaeth arian gan Lywodraeth Cymru, ganllawiau newydd ar Gynghorau Ieuenctid ar gyfer y sector cynghorau lleol - bydd Un Llais Cymru yn parhau i farchnata ac annog cynghorau i ddatblygu trefniadau Cynghorau Ieuenctid yn eu hardaloedd, ond nid oes gennym ar hyn o bryd unrhyw adnoddau arbenigol ar gael yn y sector i gefnogi cynghorau yn y maes hwn.

**Adnewyddolion Cymunedol** – Mae hwn yn faes o gryn bwys wrth i Gymru geisio cadw ei hadnoddau, rheoli newid hinsawdd a gwneud y defnydd gorau o'i hadnoddau naturiol. Mae angen mwy o wybodaeth ac anogaeth ar gynghorau i allu wynebu'r heriau allweddol y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Er bod sefydliadau all gynnig cefnogaeth i gynghorau unigol, nid oes unrhyw adnodd canolog ar gael yn y sector i alluogi cynghorau i chwarae rhan lawn yn yr agenda hon.

**Gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus -** Cam pwysig er mwyn cefnogi gwaith partneriaeth llawn fyddai sicrhau bod y sector cynghorau cymuned a thref yn cael sedd ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) yng Nghymru. O gofio goblygiadau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gynghorau cymuned mwy (incwm dros £200k) bydd angen cael cysylltiadau gwaith agosach rhwng y sector cynghorau cymuned a thref ac aelod sefydliadau presennol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - byddai hyn yn golygu cael lle ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ardal pob Awdurdod Lleol a gallu chwarae rhan lawn yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar y cymunedau y mae cynghorwyr etholedig lleol yn atebol iddynt.

**Cyllid ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref** – Mae Un Llais Cymru yn cydnabod y bydd hyn yn galw am sgiliau a galluedd newydd o fewn y sector cynghorau lleol. Byddai angen cryn waith paratoi er mwyn creu newid sylweddol yn y sector cynghorau cymuned a thref, a byddai'n rhaid cael cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn ysgwyddo'r costau dan sylw. Cred aelodau Un Llais Cymru fod rhaid i Lywodraeth Cymru ddyrannu grant bloc i gynyddu nifer y cynghorau yng Nghymru er mwyn cael 100% ledled Cymru. Mae angen grant bloc hefyd i ariannu'r gwasanaethau hynny a ddatganolwyd yn ogystal â throsglwyddo prosesau asedau cymunedol ledled Cymru. Yn

benodol o ran ariannu teg ar gyfer cynghorau cymuned a thref byddai Un Llais Cymru yn dwyn i sylw'r Panel yr angen i:

- Sicrhau bod y Grant Cynnal Refeniw a'r gwahanol fathau o gymorth grant penodol gan y Llywodraeth yn cael eu trosglwyddo'n uniongyrchol i gynghorau cymuned a thref gan Awdurdodau Unedol lle'n briodol.
- Diwygio'r system trethi busnes er mwyn rhoi cyfran i gynghorau cymuned a thref i'w helpu i gefnogi datblygu economaidd lleol, adfywio a thwf.
- Dylid ystyried o ddifrif sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, byddai cyflwyno Grant Gwella Cynghorau Cymuned a Thref yn annog arloesedd a gallai ddarparu'r adnodd angenrheidiol i roi hwb i'r broses o drosglwyddo asedau neu wasanaethau rhwng y ddwy haen, rhywbeth sy'n absennol ar hyn o bryd.
- Gofalu fod cymunedau yn elwa o ddatblygiadau trwy gymryd camau cryfach i sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn cael cyfran fwy o'r Ardoll Seilwaith Cymunedol na'r 15% 'swm ystyrlon' sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Galluogi gwaith gydag Un Llais Cymru i gefnogi sefydliadau i chwarae mwy o ran i fanteisio ar arian Ewropeaidd er budd cynghorau cymuned a thref a'r cymunedau a wasanaethant.
- Er ei fod efallai yn fater bychan yng nghyd-destun holl ystyriaethau'r Panel, buom yn edrych ar y trefniadau presennol sy'n golygu fod arian sy'n deillio o les cynllunio lleol, megis arian Adran 106 neu Ardollau Seilwaith Cymunedol (yn ôl a ddeallwn), yn mynd yn uniongyrchol i'r prif awdurdod. Os yw datblygiad yn digwydd o fewn ardal sy'n darparu rhyw fath o bremiwm datblygu, ein barn ni yw y dylai cyllid o'r fath fynd yn syth i'r cyngor cymuned neu dref i'w fuddsoddi'n uniongyrchol yn y gymuned y mae'r datblygiad yn digwydd ynddi. Ni ddylai hynny - fel sy'n digwydd ar hyn o bryd yn ôl a ddeallwn - fod yn ddibynnol ar a oes gan gyngor cymuned neu dref Gynllun Lle i gyfiawnhau trosglwyddo'r arian inni i'w ddefnyddio'n uniongyrchol yn y gymuned.

Cred Un Llais Cymru fod lefel yr ymgysylltu gyda'r cyhoedd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir wedi gwella'n sylweddol dros y degawd diwethaf. Er bod cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd, mae'r sector mewn sefyllfa dda i ysgwyddo'r beichiau cyfrifoldeb a ragwelir o ran yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i ddarparu a beth mae'r cyhoedd yn ei haeddu. Mae'r amrywiaeth sylweddol a geir ar draws y sector yn bodoli'n bennaf am resymau hanesyddol, ond mae'r seiliau wedi'u gosod yn barod ar gyfer gwneud gwelliannau cyflym ac ystyrlon, lle'n berthnasol. Fel pob corff sector cyhoeddus arall, mae heriau difrifol yn ein hwynebu, ond bydd ymroddiad cynrychiolwyr lleol yn cynnal yr ymdrechion sydd eu hangen ar hyn o bryd.

**Ymwybyddiaeth o waith cynghorau cymuned a thref** - Yn 2014, comisiynodd Llywodraeth Cymru arolwg o ganfyddiadau'r cyhoedd o gynghorau cymuned. Mae'r adroddiad yn dangos fod lefel uchel o ymwybyddiaeth o gynghorau cymuned, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan gymunedau a bod ymgysylltu effeithiol yn ychwanegu at lefelau bodlonrwydd. Fodd bynnag, mae diffyg ymwybyddiaeth o beth maen nhw'n ei wneud, a pheth dryswch gyda chyfrifoldebau Awdurdodau Lleol. Mae cryn dipyn o ddryswch am faint o braesept a godir gan gynghorau cymuned.

Mae gan y cyhoedd yng Nghymru ddiffyg ymwybyddiaeth o beth sy'n cael ei wneud gan y gwahanol sectorau, er enghraifft, y rhaniad cyfrifoldebau rhwng awdurdodau unedol a chynghorau cymuned/tref. Mae llawer o bobl yn methu gwahaniaethu, er enghraifft, rhwng rolau llywodraeth leol a chyfrifoldebau byrddau iechyd, ac mae llawer mwy yn methu deall y gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau llywodraeth leol a chanol ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw priffyrdd. Yr ateb felly yw mwy o addysg a mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd, rhywbeth y mae cynghorau cymuned a thref mewn lle da i helpu ag ef.

Er mwyn goresgyn y rhwystrau a'r heriau hyn rhaid rhoi sylw i nifer o faterion. Cafwyd cadarnhad fod y problemau hyn yn dal i fodoli yn yr wyth digwyddiad ymgynghori ar gyfer y Panel Adolygu Annibynnol  a gynhaliwyd gan Un Llais Cymru fel y nodwyd uchod:

- Rhaniad clir a datganiad cyhoeddus ar beth mae'r praesept yn talu amdano: beth mae'r awdurdod unedol yn ei wneud a beth mae'r cyngor cymuned/tref yn ei wneud. Cysylltu'r praesept â gwasanaethau a deilliannau penodol – daw'n amlwg ar beth y gwariwyd arian etholwyr lleol ac a gafodd ei wario'n dda.
- Mae rhai siartrau gydag Awdurdodau Unedol ychydig yn ysgafn. Mae angen rhoi mwy o bwysau i siartrau ac mae'n rhaid eu cysylltu â chynllun gweithredu blynyddol clir. Cafodd yr Ysgrifennydd Cabinet wybod am bryderon y sector cynghorau cymuned a thref yn ystod 2017-18.
- Mae angen mwy o gyfarwyddyd ar gynghorwyr ynghylch eu rolau a rhyw fath o ganllaw er mwyn rhoi mwy o hyder iddyn nhw gyflawni'r rolau hyn – gweithiodd Un Llais Cymru gyda Llywodraeth Cymru yn 2017 i ddatblygu naratif cadarnhaol ar gyfer y sector cynghorau lleol wrth baratoi ar gyfer etholiadau 2017 ar ffurf Canllawiau Etholiadau Lleol ar gyfer darpar ymgeisyddion. Cefnogodd Un Llais Cymru y gwaith marchnata ar gyfer etholiadau 2017 er mwyn annog pobl leol i gynnig eu henwau i fod yn gynghorwyr cymuned neu dref. Bydd angen mwy o waith cyn yr etholiadau nesaf i annog mwy o bobl i gynnig eu hunain.
- Mae angen i Glercod gael gwell arfogaeth. Byddai gwella galluedd a statws proffesiynol rôl y clerc yn creu manteision enfawr. Clercod yw conglfaen cyngor effeithiol. Mae hynny'n anorfod yn golygu mwy o gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Mae cynghorau'n aml yn perfformio orau pan allant droi at ganllawiau hawdd eu deall am gamau ymarferol sy'n cefnogi agendau strategol – er enghraifft, y canllawiau a gynhyrchwyd yn 2016-17 ar Gynghorau Ieuenctid. Yn 2018-19 bydd Un Llais Cymru yn ceisio paratoi rhagor o ganllawiau a

dogfennau cefnogol ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, er efallai y bydd angen cymorth ariannol allanol er mwyn galluogi hynny i ddigwydd.

- Rhaid i gynlluniau ar raddfa eang fod yn seiliedig ar ymgysylltu democrataidd helaeth. Mae'n rhaid iddynt fynd i'r afael â materion o bwys lleol os ydynt yn mynd i ennyn ymrwymiad a chefnogaeth. Er eu bod mewn egwyddor yn cefnogi nodau strategol mwy ac ehangach fel cydnerthedd a chynaliadwyedd, mae'n rhaid eu cyflwyno mewn cyd-destun hygyrch sy'n berthnasol yn lleol. Gan fod rhaid i'r cynghorau hynny sy'n dod o fewn i ofynion statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gynhyrchu Adroddiadau Blynyddol, bydd Un Llais Cymru yn cynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol i'r cynghorau dan sylw.
- Mae angen mwy o adnoddau ar Un Llais Cymru, naill ai ar ffurf staff neu'r galluedd ariannol i gaffael arbenigedd y gellir ei ddefnyddio i wella galluedd a hyder cynghorau i gyflawni'r rolau a ddisgrifir uchod. Roedd yr Adolygiad o Drefniadau Ariannu Cynghorau Cymuned a Thref yn 2015 wedi cydnabod nad oedd gan y mudiad ddigon o adnoddau a'i fod yn ei chael yn anodd ymdopi â'r gofynion cynyddol roedd yn eu hwynebu. Daeth yn amlwg yn 2017-18 fod y gofynion y mae Un Llais Cymru yn eu hwynebu yn cynyddu, yn enwedig gan fod aelodaeth wedi codi i fwy na 80% o holl gynghorau lleol yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae nifer o gyfleoedd ar y gorwel ar gyfer goresgyn y rhwystrau a diwallu'r anghenion:-

- Bydd angen monitro'n ofalus sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael ei gweithredu gan gynghorau cymuned a thref er mwyn gweld pa effaith a gaiff – mae'n creu heriau sylweddol i'r sector o ran datblygu'r galluedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gydymffurfio â gofynion Dyletswydd SD.
- Ynghyd â'r Maniffesto cynghorau lleol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, mae'r Adolygiad presennol o Gynghorau Cymuned a Thref 2017-8 gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cyfle i'r sector cynghorau cymuned a thref gyflwyno gweledigaeth ar gyfer rôl  cynghorau lleol yng Nghymru i'r dyfodol.
- Yn ddamcaniaethol, dylai'r Cynlluniau Llesiant Lleol gynnig strwythur y gall cynllunio a strategaeth cynghorau cymuned a thref integreiddio ynddynt a chydweddu iddynt, a chael eu cefnogi gan drefniadau sirol a rhai sy'n datblygu ar lefel ranbarthol. Hyd yn hyn bu lefel yr ymgysylltu a gafwyd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gymysg iawn, a bydd angen mwy o waith i sicrhau mwy o gysondeb yn yr ymgysylltu gyda'r sector ar draws Cymru.
- Byddai'r posibilrwydd o ddatblygu canolbwyntiau cymunedol a phartneriaethau trydydd/cynghorau cymuned a thref yn sicrhau bod cyfrifoldeb ac adnoddau yn cael eu rhannu. Mae consortia o gynghorau, grwpiau cymunedol a busnesau cymunedol yn creu strwythur mwy cynrychioliadol ar gyfer codi arian a gweithredu. Yn y model hwn, gall cynghorau cymuned a thref ddarparu arian had o weddillion neu'r praesept allai fod yn sail ceisiadau am arian elusennol, loteri neu fenthyciadau.
- Gall sefydliadau a chanddynt gylch gorchwyl penodol fel y Ffederasiwn Ffermydd Dinesig a Gerddi Cymunedol (FCFCG), Ynni Cymunedol Cymru a Chymorth

Cynllunio Cymru gynnig canllawiau ymarferol a chefnogaeth ariannol i gynghorau a'u partneriaid lleol.

Mae'r gwaith a gychwynnwyd yn 2015-16 gan Lywodraeth Cymru gyda phartneriaid megis Un Llais Cymru, y WLGA, TUC Cymru, Canolfan Gydweithredol Cymru a WCVA ar **Fodelau Darparu Amgen** (er y bu oedi gyda hwn yn ystod 2017-18) yn cynnig cyfle i ystyried perthnasoedd gwaith a phartneriaethau sefydliadol newydd ar draws Cymru rhwng cynghorau lleol a mudiadau budd-ddeiliaid. Er enghraifft, byddai Canolbwyntiau Cymunedol yn rhoi mwy o hyder i gynghorwyr - yn y model hwn mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol a phobl leol ac yn cael gwell dealltwriaeth o beth mae pobl ei eisiau ar gyfer eu cymuned a beth maen nhw'n ei ddisgwyl oddi wrth eu cyngor. Gall y fforwm fod yn fodd o ddatrys camddealltwriaethau a chytuno ar beth ddylid/ellid gwario'r praesept arno, ac a ddylid ei godi er mwyn cyflawni rhai amcanion.

Roedd Un Llais Cymru yn croesawu'n fawr gyhoeddiadau'r Ysgrifennydd Cabinet yn y Gynhadledd Genedlaethol ym mis Hydref 2016 i gyflwyno agenda o weithredu i helpu adeiladu cydnerthedd ac adnewyddiad mewn cynghorau cymuned a thref:

1. Cynhyrchu pecyn gwaith i gefnogi cynghorau cymuned i weithio trwy'r hyn sydd ei angen wrth dderbyn gwasanaethau ac asedau newydd, gan adeiladu ar brofiadau o'r prif gynhwysion. Dechreuwyd gweithio ar hwn yn 2017-18 a disgwylir y caiff ei orffen yn 2018-19.

2. Bwrw ati i ddeddfu ar gyfer y **Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**, yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad y Llywodraeth ddiwethaf, ar gyfer cynghorau uchelgeisiol sy'n chwilio am fwy o ryddid i wasanaethu eu cymunedau.

3. Adfywio'r cysylltiadau rhwng cynghorau cymuned ac awdurdodau lleol a chreu llwyfan ar gyfer rhannu'r enghreifftiau da ledled Cymru, gan greu'r garfan newydd o gynghorwyr sir a chymuned.

4. Hwyluso'r gwaith o greu **clystyrau** o gynghorau cymuned llai, gwneud symiau bach o arian ar gael i gefnogi'r gwaith cychwynnol o sefydlu trefniadau ar y cyd. Bydd canfyddiadau rhaglen beilot 2017-18 yn helpu gosod cyfeiriad i drefniadau o'r fath i'r dyfodol.

5. Deddfu i orfodi cynghorau i **ystyried a chynllunio ar gyfer eu hanghenion hyfforddiant** a'u hadolygu'n rheolaidd.

6. Gofalu fod pobl leol yn cael gwybodaeth gyson a bod ganddynt yr hawl i **gyflwyno sylwadau** ar unrhyw fater a drafodir mewn cyfarfod cyngor. Dysgu o ble y caiff hyn ei wneud yn dda a chwilio am gyfle deddfwriaethol i gryfhau'r trefniadau presennol.

7. Cefnogi cynghorau cymuned i **godi ymwybyddiaeth ac annog cyfranogiad** mewn etholiadau cynghorau cymuned a chynyddu amrywiaeth.

Fodd bynnag, er mwyn gwireddu'r cyfleoedd y mae'r amgylchedd presennol yn eu cynnig mae aelod gynghorau Un Llais Cymru yn credu fod nifer o gamau eraill y dylid eu cymryd, fel y nodir isod:

- Rhagor o gymorth ariannol i Un Llais Cymru a/neu grwpiau er mwyn gallu creu cynghorau newydd yn y cymunedau hynny nad oes ganddynt gyngor lleol ar hyn o bryd.
- Ni chafodd canllawiau ar gynghorau wedi'u grwpio, partneriaethau a threfniadau ffederasiwn eu cyflwyno hyd yn hyn, ond disgwylir y dysgir cryn dipyn o'r rhaglen Clystyrau Peilot yn 2017-18 y gellir ei rannu gyda chynghorau lleol wedi i'r rhaglen ddod i ben.
- Datblygwyd canllawiau ar gyfer TUPE a swyddogaethau dirprwyedig ar gyfer cynghorau cymuned a thref.
- Cyflwyno cynllun achrededig – bydd Un Llais Cymru yn cyflwyno papurau i'r Grŵp Ymgynghorol Cenedlaethol ar Hyfforddiant yn 2018-19 i edrych ar sut ellir datblygu hyn yn y sector cynghorau cymuned a thref.
- Mae Un Llais Cymru wedi dechrau gweithio ar Fodelau Darparu Amgen gyda Llywodraeth Cymru ac mae hyn yn creu'r cyfrwng i edrych ar ddatblygu canllawiau ar y pynciau hyn.
- Creu nifer o swyddi arbenigol yn Un Llais Cymru i gefnogi cynghorau lleol gyda'r agenda 'datganoli gwasanaethau' a 'throsglwyddo asedau' bresennol a gweithredu menter Hyrwyddwyr y Gymraeg ymhob cyngor cymuned a thref.
- Datblygu canllawiau clir ar y trefniadau ariannu ar gyfer gwasanaethau/asedau dirprwyedig neu ddatganoledig.
- Comisiynu arolygon rheolaidd cynghorau cymuned a thref er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion a'u gweithgareddau a'r deilliannau a sicrhawyd i gymunedau. Trwy weithio gyda Llywodraeth Cymru cynhaliwyd arolwg cynhwysfawr ar drosglwyddo asedau a datganoli gwasanaethau yn 2017-18 fydd yn helpu cyfrannu at gefnogaeth a datblygiadau ar y mater hwn i'r dyfodol.
- Comisiynu ymchwil i archwilio dulliau posib o drefnu ariannu uniongyrchol i gynghorau cymuned a thref, i gynnwys:
    - Adolygu arferion presennol o ran ariannu swyddogaethau dirprwyedig
    - Trefniadau ar gyfer osgoi trethu dwbl
    - Cyflwyno cynlluniau grant wedi'u hariannu'n uniongyrchol
    - Mynd i'r afael â mater swyddogaethau cydamserol a gwella atebolrwydd a thryloywder lleol
- Datblygu rhaglen o welliannau yn seiliedig ar gynlluniau grant cymunedol a ddarperir ar gyfer cynghorau cymuned a thref er mwyn annog arloesedd ac arbedion wrth ddarparu gwasanaethau ar y lefel leol iawn.

## d) SUT ALL CYNGHORAU SICRHAU EU BOD YN CYNRYCHIOLI EU CYMUNED LEOL ORAU?

Gall ac mae cynghorau cymuned a thref yn chwarae rôl hollbwysig yn creu a chynnal ymdeimlad cryf o gymuned. Cred Un Llais Cymru fod cynghorau cymuned a thref, sef yr haen gyntaf o lywodraeth yng Nghymru, mewn sefyllfa dda i sicrhau cynaliadwyedd camau datblygu cymunedol a gefnogir gan sectorau eraill. Mae Un Llais Cymru yn ystyriol hefyd o bwysigrwydd gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ymglymiad cymunedau wrth ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Trwy hyrwyddo datblygiadau lleol, gweithio gyda phartneriaid yn gweithio yn y gymuned neu'n ei chefnogi, gall y rhyngweithio cynyddol rhwng unigolion yn y gymuned greu agwedd gadarnhaol ac ymdeimlad o lesiant. Wrth i gymunedau unigol Cymru ddatblygu fel hyn, gwnânt gyfraniad o bwys i ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd Cymru.

Mae Tabl 5 isod a thros y dudalen yn cynnwys manylion y safbwyntiau a fynegwyd gan aelod gynghorau Un Llais Cymru ar sut allant ofalu eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol orau.

**Tabl 5: Barn aelod gynghorau Un Llais Cymru ar sut ddylai cynghorau sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymuned leol orau**

- Cael cynlluniau gweithredu clir yn seiliedig ar ymgysylltu ag anghenion y gymuned sy'n cael eu cyfathrebu'n effeithiol i'r gymuned ac adrodd ar y cynnydd a wnaed o leiaf yn flynyddol i drigolion lleol er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder llawn ar ran aelodau etholedig
- Cyswllt da rhwng cynghorwyr cymuned a thref a chynghorwyr sir, Aelodau Cynulliad a'r Aelod Seneddol / Senedd Ewrop lleol
- Gofalu fod y cyhoedd yn cael gwybod sut mae'r praesept yn cael ei wario a gwneud y defnydd gorau o'r praesept – gwaith partneriaeth gyda'r awdurdod lleol a chyrff allanol
- Adnabod materion lleol iawn y gallai'r Cyngor Sir fod wedi'u diystyru
- Trwy wneud eu hunain yn galon y gymuned a gallu dal cyrff cyhoeddus eraill i gyfrif trwy graffu effeithiol / Llywodraethwyr awdurdodau llai ar gyrff llywodraethol ysgolion lleol / Sefydlu cysylltiadau cryfion gyda'r Cynghorydd Sir lleol a ddylai ddarparu adroddiad blynyddol i'r Cyngor Cymuned neu Dref / Cynrychiolaeth ar gyrff allanol lleol
- Trwy gael cyflenwad llawn o gynghorwyr a chadw at "reolau"/ etholiadau cystadleuol gyda chymysgedd amrywiol o gynghorwyr
- Gweithio gyda lleiafrifoedd, ysgolion, clybiau a chymdeithasau, clybiau ieuenctid a chysylltiadau diogelwch cymunedol / Gweithio gyda mudiadau lleol eraill i ychwanegu cefnogaeth ac arbenigedd a chynyddu'r gobaith o lwyddo / Hwyluso cyfarfodydd rhwng darparwyr a grwpiau yn y gymuned / Cysylltu â chynghorau cyfagos
- Cylchlythyron rheolaidd, gwefan gyfredol, sesiynau galw heibio. Y peth pwysicaf yw gwrando ar beth mae pobl leol yn ei ddweud, ei eisiau a'i deimlo / Gofalu eu bod yn ymgysylltu â'u cymuned leol trwy ofyn cwestiynau, arolygon, digwyddiadau cymunedol / Cyfathrebu rhyngweithiol rheolaidd trwy gymorthfeydd cynghorwyr, adroddiadau blynyddol, cyfryngau cymdeithasol, gwefan y cyngor; trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ar faterion o bwys lleol, cynnal asesiad o anghenion y gymuned a mentrau datblygu cymunedol eraill, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar raglenni'r cyngor, datblygu

cysylltiadau a rhwydweithiau cyfathrebu da gyda chyrff sector cyhoeddus eraill, y trydydd sector a chymdeithasau a mudiadau cymunedol / Defnyddio papurau lleol i arddangos y gwaith
- Gofalu fod gan glercod a chynghorwyr sgiliau ar gyfer gofynion i'r dyfodol / Cael tîm o aelodau a staff pwrpasol ac wedi'u hyfforddi a darpariaeth gyllidebol er mwyn cynnal y casgliad o sgiliau angenrheidiol
- Ceisio hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r bum ffordd allweddol o weithredu fel y nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dylai hyn fod yn gyffredinol i bob cyngor lleol.
- Rhoi'r cyfrifoldeb am wasanaethau cymunedol i gynghorau lleol i roi iddynt y grymoedd i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb / Ni ddylid fyth rhagdybio unrhyw beth; ymchwil, gwirio a dilysu – symud ymlaen yn hyderus
- Annog pobl iau i gynnig eu hunain – darparu persbectif gwahanol / Cynnwys y gymuned mewn prosiectau lleol, ymgynghori â'r gymuned ar benderfyniadau mawr trwy Gynllun Tref. Gwefan gyfredol a threfn fwy agored ac atebol. Rydym wastad yn annog ein cymuned i fynychu cyfarfodydd cyngor ac fe groesawn y sawl sy'n gwneud hynny / Trwy fod yn rhagweithiol ac ymatebol i faterion lleol o bwys / Ffordd fwy hwylus o alluogi'r cyhoedd i wybod beth sy'n digwydd yn hytrach na bodloni ar gyhoeddi cofnodion ar wefan
- Arddangos atebolrwydd democrataidd trwy gynnal cylch rheolaidd o gyfarfodydd a bod yn dryloyw ac atebol gyda threfniadau busnes y cyngor.
- Gofalu fod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd er mwyn sicrhau bod pawb yn teimlo'n rhan o'r hyn sy'n digwydd / Amddiffyn a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.
- Cadw cyllideb waith ystyrlon ynghyd â rhaglenni gwario penodedig a chyllideb gyfalaf sy'n cael ei harwain gan anghenion y gymuned.
- Paratoi cynllun lle trwy ymgynghori gydag etholwyr lleol / Cyfrannu'n weithredol at drefniadau gwneud penderfyniadau lleol, gan gynnwys cefnogi rhaglen waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar lefel leol; ymatebion prydlon i ymgynghoriadau ar faterion cynllunio lleol a gallu datblygu canllawiau atodol i gefnogi'r cynllun datblygu lleol; mwy o ryngweithio gyda'r gwasanaethau tân, iechyd a'r heddlu.
- Gwobrwyo arloesedd cymunedau gyda grantiau / Mynnu fod grwpiau sy'n cael grantiau neu arian ar gyfer prosiectau gan y cyngor cymuned yn rhoi cyhoeddusrwydd i hynny

Mae'n amlwg mai'r ffordd y gall cynghorau gynrychioli eu cymunedau lleol orau yw trwy gyfathrebu dwy ffordd effeithiol rhyngddyn nhw a'u hetholwyr lleol: gallai hynny fod trwy gyfarfodydd cyhoeddus, cymorthfeydd, cylchlythyron rheolaidd, defnyddio cyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu Adroddiadau Blynyddol yn ogystal â thrwy wrando ar etholwyr lleol, eu hannog a'u cynnwys yn y gwaith o gynllunio prosiectau yn ogystal â thrwy sicrhau y rhoddir adborth iddynt ar ddeilliannau ac unrhyw fuddiannau a gafwyd; ac yn olaf trwy ofalu fod y cyngor yn rhwydweithio'n dda ac yn cael ei gynrychioli ar gyrff allanol sy'n gwasanaethu buddiannau etholwyr lleol. Sicrhau bod etholwyr lleol yn teimlo fod ganddynt gysylltiad â'r cyngor lleol yw'r her i gynghorau cymuned a thref, ac fel y dywedwyd ynghynt yn yr ymateb ac fel y cydnabu aelodau Un Llais Cymru, bydd

gwneud gwell defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn allweddol i gyflawni’r agenda hon i’r dyfodol, o gofio lefelau defnydd y cyhoedd ohonynt, a bydd ffocysu ar hyn yn hollbwysig i gynghorau cymuned a thref.

Fodd bynnag, mae gofid o fewn y sector cynghorau cymuned a thref y gallai ehangu ardaloedd presennol cynghorau cymuned a thref wanhau’r teimlad cryf o ymdeimlad cymunedol. Mae’r adborth yn awgrymu y ceir y gynrychiolaeth orau wrth i fudiadau lleol dynnu aelodau o blith eu cymunedau eu hunain. Cred aelod gynghorau fod ystod eang o sgiliau ar gael ymhob cymuned ac y gall ac y dylai ‘r cynghorau cymuned a thref fanteisio o’r gronfa hon. Er mwyn galluogi hyn dylai cynghorau cymuned a thref weithio gyda’r gymuned i annog pobl i ymddiddori mewn llywodraeth leol ac i feithrin diddordeb o’r newydd gan bobl i gynnig eu henwau mewn etholiadau lleol, a thrwy hynny wella’r broses ddemocrataidd. Mae cydnabyddiaeth fod angen gwneud mwy i hyrwyddo ac addysgu’r gymuned ar beth mae’r cynghorau cymuned a thref yn ei wneud a phwy ydyn ni.

Mae agenda llymder llywodraeth y Deyrnas Gyfunol ac effaith hynny ar arian cyhoeddus yng Nghymru yn golygu fod Awdurdodau Unedol yn y sefyllfa o orfod ystyried torri gwasanaethau neu eu trosglwyddo i gyrff eraill. Y neges gref o’r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gyda chynghorau yn ystod yr ymgynghoriad diweddar ar adolygiad y Panel Adolygu Cynghorau Cymuned a Thref oedd mai datganoli gwasanaethau oedd y mater pwysicaf sy’n wynebu cynghorau ar hyn o bryd. Bydd cael fframwaith clir ar gyfer datganoli gwasanaethau ac asedau rhwng cynghorau cymuned a thref a chynghorau sir yn helpu cynghorau lleol i sicrhau eu bod yn cynrychioli trigolion lleol orau y gallant wrth ystyried trosglwyddo asedau neu wasanaethau cyhoeddus. Mae Un Llais Cymru eisoes yn cyfrannu at drafodaethau polisi ar drosglwyddo asedau a datganoli gwasanaethau, ond mae cryn dipyn o waith i’w wneud o hyd er mwyn i gynghorau cymuned a thref fod mewn sefyllfa i allu derbyn gwasanaethau.

Bydd angen i waith parhaus Un Llais Cymru ar gyfer y sector cynghorau cymuned a thref gynnwys y blaenoriaethau canlynol er mwyn sicrhau bod gan gynghorau cymuned a thref yr adnoddau angenrheidiol ar gael iddynt er mwyn sicrhau eu bod yn cynrychioli eu cymunedau lleol orau. Mae hyn yn cynnwys:

- Ar y cyd â’r WLGA, WCVA, y Grŵp Asedau Cenedlaethol, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, cefnogi cynghorau wrth ymateb i’r agenda datganoli gwasanaethau;
- Ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru a mudiadau megis Cynnal Cymru, cefnogi cynghorau mwy gyda gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru);
- Datblygu safbwynt polisi ar yr egwyddorion ddylai fod yn sail i adolygiadau arfaethedig yr LDBCW o ardaloedd cynghorau;
- Ar y cyd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, adnabod cynghorau sy’n debygol o fod angen cefnogaeth wedi’i thargedu i’w galluogi i gydymffurfio â gofynion archwilio;

- Ar y cyd â'r SLCC, datblygu rhaglen hyfforddiant / asesu addas ar gyfer clercod;
- Ar y cyd ag arbenigwyr perthnasol e.e. Participation Cymru; e.e. WCVA e.e. Comisiwn Etholiadol Cymru, datblygu cynllun gweithredu ar gyfer ennyn mwy o ddiddordeb lleol mewn cynghorau cymuned a thref i'r dyfodol;
- Parhau i ddarparu hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth i gynghorau i'w galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol. Ar y cyd â Chymorth Cynllunio Cymru, parhau i wella gallu cynghorau i ymgysylltu'n effeithiol â'r broses gynllunio a datblygu Cynlluniau Lle yn ôl y galw.

Fodd bynnag, rhaid i'r Panel gydnabod fod y cynnydd yn natur a maint y cymorth sydd ei angen ar gynghorau cymuned a thref yn rhoi cryn bwysau ar Un Llais Cymru i ddarparu cyngor ehangach a manylach ar faterion technegol yn gysylltiedig â'r ystod gynyddol o feysydd cyfrifoldeb sydd gan gynghorau cymuned a thref.

Mae Un Llais Cymru yn cefnogi'r cyfeiriad cyffredinol y bwriedir ei gymryd – "rydym oll am i'n Cynghorau fod yn gynghorau gweithredol; sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch ac o ansawdd uchel yn eu cymunedau". Mae Un Llais Cymru a'i haelod gynghorau wedi ymrwymo i gynnal gwasanaethau cyhoeddus lle bynnag y bo modd, er bod y sector yn cydnabod ei fod angen galluedd ac arfau ychwanegol i ddelio â'r heriau sy'n ei wynebu a bod angen cefnogaeth ariannol i alluogi cynghorau lleol i ddelio â'r posibilrwydd o drosglwyddo gwasanaethau ac asedau dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf.

## Sylwadau terfynol:

Hoffai Un Llais Cymru ddiolch i'r Panel am y cyfle i gyflwyno syniadau a safbwyntiau i'w hystyried yn rhan o'r adolygiad annibynnol.

Pe bai'r Panel yn credu fod angen neu werth trafod neu egluro ymhellach unrhyw un o'r materion a gyflwynir yn yr ymateb hwn, byddem yn falch o gynorthwyo.

Yn yr un modd, hoffem ddiolch am y cyfle a roddodd y gwahoddiad inni drafod a rhannu barn o fewn llywodraethiant Un Llais Cymru wrth lunio a chytuno ein hymateb.

**Mr Lyn Cadwallader**
**Prif Weithredwr, Un Llais Cymru**

**Atodiad A – Rhestr o Ddigwyddiadau Ymgynghori a Mynychwyr**

**Caernarfon (Dydd Mawrth 28ain Tachwedd 2017 2pm – 4pm)**
Llanystumdwy
Pwllheli
Llandwrog
Caernarfon
Llangefni
Bangor
Penrhyndeudraeth
Porthmadog
Dolbenmaen
Llanfair Mathafarn Eithaf
Cricieth
Porthaethwy

**Y Waun (Dydd Mercher 29ain Tachwedd 2017 2pm – 4pm)**
Y Waun
Owrtyn
Trelawnyd a Gwaunysgor
Trefaldwyn
Llandysilio
Gresffordd
Mochdre gyda Phenystrywaid
Llandrillo
Gwersyllt
Yr Wyddgrug

**San Clêr (Dydd Llun 4ydd Rhagfyr 6pm – 8pm)**
Llangeler
Castell Newydd Emlyn
Llangennech
Manordeilo & Salem
Llangynnwr
Caerfyrddin
Solfach
Arberth
East Williamston
Talacharn
Pembre & Phorth Tywyn

Aberaeron
Ciliau Aeron
Llansantffraid
Merlins Bridge
Freystrop
San Clêr
Llandyfái & Freshwater
Penarth
Llanwenog
Llanstadwel

**Hawau (Dydd Llun 4ydd Rhagfyr 2018 2pm-4pm)**
Llanfihangel Rhydieithon
Dyffryn Grwyne
Maesyfed
Nantmel
Rhaeadr Wysg
Talybont ar Wysg
Llandinam
Llandrindod
San Harmon
Y Drenewydd & Llanllwchaearn
Yr Ystog
Y Gelli Gandryll
Trefeglwys
Trefyclawdd
Llanfrynach
Abaty Cwmhir
Dyserth & Threcoed
Llanandras & Norton
Pencraig

**Gorseinon (Dydd Llun 11eg Rhagfyr 2018 2pm – 4pm)**
Llandybie
Porthcawl
Grovesend
Llanedi
Pontarddulais
Clydach
Tregŵyr
Coedffranc
Tawe Uchaf
Gwaun Cae Gurwen
Mymbls

Gorseinon
Cilâ Uchaf
Y Crwys
Pen-y-bont ar Ogwr
Merthyr Mawr
Pennard
Pelennau
Cwmaman
Llanedi
Llannon
Mawr
Maenorbŷr

**Pencoed (Dydd Mawrth 5ed Rhagfyr 6pm – 8pm)**
St Georges & St Brides
Sain Dunwyd
Llancarfan
Sain Ffagan
Pentyrch
Pont-y-clun
Ewenni
Llangrallo Isaf
Llansanffraid-ar-ogwr
Llanilltud Faerdre
Llangrallo Uchaf
Llysfaen
Pencoed
Coety Uchaf
Tongwynlais

**Henllys (Dydd Mawrth 5ed Rhagfyr 2pm – 4pm)**
Y Fenni
Penarth
Llangynidr
Llangybi Fawr
Croesyceiliog & Llanyrafon
Cwmbrân
Penarth
Langstone
Magwyr gyda Gwndy
Caldicot
Trefynwy
Henllys
Crughywel

Drenewydd Gelli-farch
Matharn
Blaenafon
Crucornau
Llanelli
Dyffryn Grwyne
Pont-y-pŵl
Ponthir
Llanbadarn Fawr

**Atodiad 2 Fframwaith Gallu a Galluedd**

# FFRAMWAITH ADEILADU GALLU A GALLUEDD 2016-2023

## GWELEDIGAETH AR GYFER Y SECTOR CYNGHORAU CYMUNED A THREF

*Rhagwelir y bydd cynghorau cymuned a thref yn chwarae rôl weithredol yn diwallu anghenion cymunedau ac yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig yn sgîl diwygio llywodraeth leol. Yn benodol felly, y nod yw y bydd cynghorau yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion grwpiau bregus mewn cymunedau, megis plant, pobl ifanc a'r henoed musgrell.* (Papur Gwyn: Ad-drefnu Llywodraeth Leol: Grym i'r Bobl Leol 3 Chwefror 2015)

## PWRPAS Y FFRAMWAITH

Bydd y fframwaith yn golygu y gellir cymryd golwg strategol ar sicrhau bod gan y sector cynghorau cymuned a thref y gallu a'r galluedd angenrheidiol i wynebu'r heriau, a manteisio ar y cyfleoedd sy'n wynebu'r sector.

Bydd fframwaith adeiladu gallu a galluedd yn cynnig eglurder a chonsensws ar ba gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen yn y tymor byr, canol a hir. Bydd hyn yn cyfrannu at benderfyniadau ar y meysydd y dylai Llywodraeth Cymru dargedu cefnogaeth ynddynt bob blwyddyn, a pha weithgarwch gaiff ei gomisiynu.

Pwrpas y fframwaith fydd:

- Adnabod pa allu a galluedd ychwanegol (sgiliau, ymddygiadau, gwybodaeth a dealltwriaeth) fydd eu hangen ar glercod a chynghorwyr
- Adnabod pryd fydd angen adeiladu'r gallu a galluedd

Bydd y fframwaith yn gweithio'n gyfochrog â'r Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol, sy'n ceisio gwella gwybodaeth a sgiliau craidd cynghorwyr a chlercod a sefydlu diwylliant hyfforddiant.

## FFRAMWAITH

Mae'r fframwaith yn mabwysiadu dull graddol, gan fapio allan y gofynion gallu a galluedd dros y tymor byr, canol a hir. Bydd rhai o'r gofynion gallu a galluedd yn benodol i bob cam, tra y bydd eraill yn groestoriadol ac yn rhai y bydd angen eu datblygu yn ystod cyfnod y fframwaith.

Yn fras, gellir mapio’r sgiliau, ymddygiadau, gwybodaeth a dealltwriaeth o dan y themâu canlynol:

- Sgiliau masnachol a rheoli busnes
- Arbenigedd wrth ddarparu gwasanaethau a rheoli asedau
- Deall gwasanaeth a gofal cwsmer
- Arbenigedd ar anghenion a chefnogaeth i grwpiau penodol
- Sgiliau meithrin cydlynedd cymunedol
- Arbenigedd rheoleiddiol a chyfreithiol
- Arweinyddiaeth
- Sgiliau rheoli staff
- Cyflawni rôl yn gynrychiolydd etholedig y gymuned
- Y gallu i reoli newid
- Proffesiynoldeb
- Gweithio mewn partneriaeth

## Cam 1: 2016/17; 2017/18

### Datblygu gallu a galluedd cyffredinol

Mae’r cam hwn yn rhagflaenu adolygiadau’r Comisiwn Ffiniau ac mae’r ffocws ar wella galluedd a sgiliau sylfaenol y sector cyfan. Mae’r gyriannau penodol yn adeiladu’r gallu a’r galluedd i ddelio â phwysau canolraddol datganoli gwasanaethau ac asedau; ymgysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015; ac annog a chefnogi ystod eang o bobl i gynnig eu hunain yn gynghorwyr.

- Gwella cymhwysedd mewn sgiliau masnachol – y gallu i graffu cynigion, archwilio tystiolaeth, arfarnu cyngor yn feirniadol, datblygu cynlluniau a gwneud penderfyniadau gwybodus.[ Sgiliau masnachol a rheoli busnes] [Arbenigedd wrth ddarparu gwasanaethau a rheoli asedau]
- Adeiladu sgiliau ac arbenigedd wrth gomisiynu gwasanaethau [Arbenigedd ar anghenion a chefnogaeth i grwpiau penodol] [Arbenigedd wrth ddarparu gwasanaethau a rheoli asedau]
- Datblygu dealltwriaeth o fodelau darparu amgen
- Datblygu’r gallu i osod cyllidebau, adrodd ar gynnydd a chynhyrchu adroddiadau blynyddol [Sgiliau masnachol a rheoli busnes]
- Annog pobl i gynnig eu hunain ar gyfer etholiadau 2017 [Arweinyddiaeth gymunedol]

- Sicrhau bod cynghorwyr newydd yn deall beth a ddisgwylir ganddynt [Cyflawni rôl yn gynrychiolydd etholedig y gymuned]
- Gwella sgiliau arweinyddiaeth - dysgu bod yn rhagweithiol a chynnig cyfeiriad. [Arweinyddiaeth bersonol]

## Cam 2: 2018/19; 2019/20

Mae'r cam hwn yn cyd-ddigwydd â'r cynnydd ar adolygiadau CFfDLC; bydd Cynghorau Cymuned yn cyflwyno sylwadau I Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) yn ystod y cyfnod hwn. Bryd hynny bydd patrwm arfaethedig y sector cynghorau cymuned a thref yn dechrau ymddangos. Bydd hwnnw'n amser priodol i adeiladu gallu a galluedd penodol i dderbyn grymoedd a dyletswyddau newydd a gynigir yn y Bil Llywodraeth Leol – bydd cynghorau sy'n dymuno defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol yn ystyried sut i gyflawni'r tri gofyniad; bydd cynghorau yn ystyried hefyd sut y byddant yn ymateb i hawliau'r cyhoedd wrth fynychu cyfarfodydd cyngor a chyfrannu at gyfarfodydd. Hefyd, bydd angen ystyried y gallu a'r galluedd i fanteisio ar drefniadau ymgysylltu cymunedol y cyngor sir.

- Y gallu i reoli staff yn effeithiol [sgiliau rheoli staff]
- Cynyddu nifer y clercod cymwysedig
- Parhau i gryfhau rheolaeth a llywodraethiant ariannol
- Dechrau gwella sgiliau clercod a staff a fydd yn rhan o gyngor cymuned llawer mwy o dan drefniadau newydd [Y gallu i reoli newid]
- Ymwybyddiaeth o reoli risg [Arbenigedd rheoleiddiol a chyfreithiol]
- Ymwybyddiaeth o gyfryngau cymdeithasol [Y gallu i reoli newid]
- Gwaith partneriaeth / sgiliau negydu [Gweithio mewn partneriaeth]

## Cam 3: 2020/2023

### Trosglwyddo i drefniadau newydd ar gyfer cynghorau cymuned

Mae'r cam hwn yn dilyn cwblhau'r rhan fwyaf o adolygiadau'r Comisiwn Ffiniau. Bydd angen mapio gallu a galluedd cynghorau presennol yn ôl y trefniadau newydd a argymhellir a symudiad at ddull mwy penodol o fynd i'r afael â bylchau gallu a galluedd penodol. Adeiladu gallu a galluedd er mwyn symud at drefniadau newydd ar gyfer cynghorau cymuned unwaith y mae canlyniad yr adolygiad yn derfynol.

- Y gallu i reoli staff mewn sefydliadau mwy. [Sgiliau rheoli staff] [Arweinyddiaeth]
- Sgiliau yn trin toriadau staffio a diswyddiadau [Sgiliau rheoli staff]
- Annog pobl i sefyll yn etholiadau 2023 [ Arweinyddiaeth gymunedol]

- Gwella sgiliau clercod a chynghorwyr sydd erbyn hyn yn rhan o gyngor cymuned llawer mwy [ Arbenigedd wrth ddarparu gwasanaethau a rheoli asedau] [Deall gwasanaeth a gofal cwsmer]
- Sicrhau bod cynghorwyr newydd yn deall beth a ddisgwylir ganddynt [Cyflawni rôl yn gynrychiolydd etholedig y gymuned]
- Sicrhau bod gweithwyr newydd yn deall beth a ddisgwylir ganddynt

**Atodiad 3**

**Fforwm Llunio Lle Bodmin**
**Cylch Gorchwyl**

## Pwrpas

Pwrpas y Fforwm yw cynllunio, trafod, blaenoriaethu a, lle'n briodol, darparu neu gefnogi darparu gwasanaethau o fewn Ardal Rhwydwaith Gymunedol Bodmin. Pwrpas y Fforwm yw cydweithio mewn partneriaeth, a phob aelod yn cynrychioli eu maes arbenigedd penodol, a sicrhau ymgysylltu ehangach ar draws pob sector.

Bydd gan y Fforwm ffocws economaidd bras, ond bydd ganddo olwg holistaidd o'r ddealltwriaeth hon fod yr economi yn gysylltiedig ac yn cael ei yrru gan ac yn ddibynnol ar bob agwedd o gymuned.

Bydd y Fforwm yn datblygu gweledigaeth hirdymor 2030 fel bod dyheadau ardal Bodmin yn cael eu crynhoi, ac mae datblygiadau yn gydnaws â'r weledigaeth hon.

Bydd y Fforwm yn:

- Archwilio cyfleoedd ar gyfer gweithio/ariannu ar y cyd.
- Cynnal sesiynau thematig i weithredu blaenoriaethau a gytunwyd.
- Sefydlu is grŵp/gweithgorau amser gyfyngedig yn ôl y galw
- Cynnal 2 ddigwyddiad budd-ddeiliad bob blwyddyn er mwyn cyfrannu at grŵp ehangach o ddatblygiadau

---

## Aelodaeth Llunio Lle Bodmin

Bydd y Fforwm yn cynnwys un unigolyn arweiniol o bob maes a restrir isod –

- Economi
- Celfyddydau a Diwylliant
- Iechyd a Lles
- Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol
- Treftadaeth/Twristiaeth
- Ffocws Canol Tref
- Prosiectau Cymunedol
- Tai a Thrafnidiaeth
- Sgiliau Addysg
- Panel Rhwydwaith Cymunedol
- Cyngor Tref Bodmin

Daw'r arweinyddion hyn o gymuned ehangach Bodmin ac fe'u hetholir gan y grŵp budd-ddeiliaid ehangach bob blwyddyn. Gwahoddir swyddogion priodol o Gyngor Sir Cernyw i fynychu'r cyfarfodydd hyn yn ôl y galw.

**Cyfarfodydd Fforwm Bodmin**

- Cynhelir chwe **Fforwm Llunio Lle Bodmin** bob blwyddyn, bob dau fis.
- Bydd y Fforymau yn cael eu cefnogi gan swyddogion Cyngor Sir Cernyw yn ôl y galw.

- Dylai'r Fforwm geisio cyrraedd consensws.

- Pan mae angen pleidlais bydd yn digwydd trwy un aelod un bleidlais. Pan na all y Fforwm wneud penderfyniad bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.

- Dylid dosbarthu agendau 4 wythnos cyn y cyfarfod a bydd cyfle i ychwanegu eitemau hyd at 2 wythnos cyn Cyfarfod y Fforwm.

- Cynhelir Cyfarfodydd y Fforwm mewn lleoliad yn ardal Bodmin a byddant yn cychwyn am 5.00pm.

- Etholir Cadeirydd am gyfnod o ddeuddeng mis.

- Cofnodir y cyfarfod trwy nodiadau byr, anffurfiol, pwyntiau gweithredu a chofnod o unrhyw benderfyniadau ffurfiol a wnaed.

**Cyfarfod y grŵp Budd-ddeiliaid ehangach**

Yn ogystal â chyfarfod y Fforwm, cynhelir cyfarfod budd-ddeiliaid ehangach ddwywaith y flwyddyn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn gyfle i arweinyddion y Fforwm adrodd ar gynnydd, derbyn cwestiynau a sylwadau oddi wrth fudd-ddeiliaid a chael golwg ehangach ar ddatblygiadau.

Penodir yr arweinyddion newydd yn y cyfarfod budd-ddeiliaid hwn bob blwyddyn (???? Too often???? – may not allow much time for the leads to embed???)

**Is Grwpiau/Gweithgorau**

Ar adegau, os oes angen gwneud mwy o waith ar unrhyw fater, mae gan y Fforwm awdurdod i sefydlu is grŵp neu weithgor i fynd â'r mater yn ei flaen.

***Prosesau Anffurfiol***

Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd trwy ryngweithio beunyddiol rhwng cynghorwyr, swyddogion, grwpiau, unigolion a phartner sefydliadau. Mae'n debyg mai'r prosesau "anffurfiol" hyn fydd elfennau mwyaf gweithredol y Fforwm, a dylent wastad gysylltu/adrodd yn ô i gyfarfodydd y Fforwm.